# Beth Nawr, 2019

## Canlyniadau'r arolwg a dadansoddiad o brofiadau a phryderon plant a phobl ifanc Cymru a'u blaenoriaethau i'r Comisiynydd Plant

Dr Rhian Barrance

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Cynnwys

Cyflwyniad 5
Cynrychioldeb 7
7 - 11 oed 9
11 - 18 oed 20
Fersiwn hygyrch 39
Rhieni a gofalwyr 48
Gweithwyr proffesiynol 66
Gwahaniaeth rhwng is-grŵpiau o blant 81

# Rhestr o'r Ffigurau

Ffigur 1: Pryder am faterion (plant 7-11 oed) 11
Ffigur 2: Faint o amser mae plant yn dweud bod rhiant/gofalwr yn ei dreulio ar amrywiol weithgareddau (7-11 oed) 13
Ffigur 3: Pa mor hawdd oedd cael sylw gan rieni/gofalwyr pan fydden nhw'n defnyddio ffôn symudol (7-11 oed) 14
Ffigur 4: Ydyn nhw erioed wedi gofyn i riant/gofalwr roi'r gorau i ddefnyddio ffôn symudol (7-11 oed) 14
Ffigur 5: Faint o amser dreuliwyd yn defnyddio dyfeisiau yn ystod y 24 awr diwethaf (7-11 oed) 16
Ffigur 6: Barn ynghylch beth dylai'r Comisiynydd ei wneud i wella bywydau plant
A beth ddylai fod yn flaenoriaethau iddi er mwyn gwella bywydau plant (7-11 oed) 17
Ffigur 7: Y syniad gorau ar gyfer helpu plant sy'n drist neu'n pryderu llawer (7-11 oed) 18
Ffigur 8: Y syniad gorau i stopio bwlio (7-11 oed) 18
Ffigur 9: Cyfran y plant oedd yn sôn am ymgynghori â nhw, yn ôl y math o ymgynghori (7-11 oed) 19
Ffigur 10: Lefel y pryder ynghylch materion ym mywydau plant (11-18 oed) 21
Ffigur 11: Lefel y pryder ynghylch materion byd-eang (11-18 oed) 22
Ffigur 12: Faint o amser mae plant yn dweud bod rhiant neu ofalwr yn ei dreulio ar amrywiol weithgareddau (11-18 oed) 24
Ffigur 13: Pa mor hawdd yw cael sylw gan rieni/gofalwyr pan fyddan nhw'n defnyddio ffonau symudol (11-18 oed) 25
Ffigur 14: Faint o amser dreuliwyd yn defnyddio dyfeisiau yn ystod y 24 awr diwethaf (11-18 oed) 26
Ffigur 15: Amlder teimladau cadarnhaol a negyddol am faterion penodol (11-18 oed) 27
Ffigur 16: Pwysigrwydd materion posibl i'r Comisiynydd roi blaenoriaeth iddyn nhw (11-18 oed) 28
Ffigur 17: Y blaenoriaethau pwysicaf i'r Comisiynydd (11-18 oed) 29
Ffigur 18: Lefel y gefnogaeth i syniadau ar gyfer helpu plant sydd â phroblemau emosiynol neu iechyd meddwl (11-18 oed) 30
Ffigur 19: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i fynd i'r afael â bwlio (11-18 oed) 31
Ffigur 20: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i fynd i'r afael â bwlio ar-lein (11-18 oed) 32
Ffigur 21: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i leihau trais a chamdriniaeth yn y cartref (11-18 oed) 33



Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissoner for Wales
Beth Nawr, 2019

# Rhestr o'r Ffigurau

Ffigur 22: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i gadw plant yn ddiogel ac yn hapus ar-lein ( 11-18 oed) 34
Ffigur 23: Grwpiau o blant sy'n cael eu trin yn annheg (11-18 oed) 35
Ffigur 24: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i sicrhau bod pob person ifanc yn cael eu trin yn deg mewn ysgolion (11-18 oed) 36
Ffigur 25: Cyfran o'r plant a ddywedodd bod rhywrai wedi ymgynghori â nhw, yn ôl y math o ymgynghoriad (11-18 oed) 37
Ffigur 26: Cyfran y plant sy'n pryderu am faterion yn eu bywydau (Hygyrch) 39
Ffigur 27: Faint o amser mae rhiant neu ofalwr yn ei dreulio ar weithgareddau, yn ôl y plant (Hygyrch) 40
Ffigur 28: Faint o amser, mewn oriau, dreuliwyd yn defnyddio dyfeisiau yn ystod y 24 awr diwethaf (Hygyrch) 41
Ffigur 29: Pa mor hawdd yw cael sylw gan rieni/gofalwyr pan fyddan nhw'n defnyddio ffôn symudol (Hygyrch) 41
Ffigur 30: Barn ynghylch beth ddylai fod yn flaenoriaethau i'r Comisiynydd er mwyn gwella bywydau plant (Hygyrch) 42
Ffigur 31: Syniadau gorau ar gyfer helpu plant gyda phroblemau iechyd meddwl neu emosiynol (Hygyrch) 43
Ffigur 32: Syniadau gorau ar gyfer taclo bwlio (Hygyrch) 43
Ffigur 33: Cyfran y plant a ddywedodd bod rhywrai wedi ymgynghori â nhw, yn ôl y math o ymgynghoriad (Hygyrch) 44
Ffigur 34: Lefel y pryder ynghylch materion ym mywydau plant (Rhieni/Gofalwyr) 46
Ffigur 35: Materion y mae rhieni/gofalwyr yn pryderu fwyaf amdanynt yng nghyswllt plant (Rhieni/Gofalwyr) 47
Ffigur 36: I ba raddau mae rhieni/gofalwyr yn meddwl bod plant yn pryderu am faterion penodol yn y byd ehangach (Rhieni/Gofalwyr) 48
Ffigur 37: Materion roedd rhieni/gofalwyr yn teimlo bod plant yn pryderu fwyaf amdanynt yn y byd ehangach (Rhieni/Gofalwyr) 49
Ffigur 38: Lefel ymgysylltiad rhieni/gofalwyr â gweithgareddau (Rhieni) 50
Ffigur 39: Faint o amser a dreuliwyd yn defnyddio dyfeisiau yn ystod y 24 awr diwethaf, y tu allan i'r gwaith (Rhieni) 50
Ffigur 40: Cyfran y rhieni/gofalwyr yn ôl a yw eu plant erioed wedi gofyn iddyn nhw stopio defnyddio ffonau symudol (Rhieni/Gofalwyr) 51
Ffigur 41: Pwysigrwydd materion posibl i'r Comisiynydd eu blaenoriaethu (Rhieni/Gofalwyr) 52
Ffigur 42: Y flaenoriaeth bwysicaf i'r Comisiynydd (Rhieni/Gofalwyr) 53
Ffigur 43: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i helpu plant sydd â phroblemau iechyd meddwl neu emosiynol (Rhieni) 54
Ffigur 44: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i daclo bwlio (Rhieni/Gofalwyr) 55
Ffigur 45: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i daclo bwlio ar-lein (Rhieni/Gofalwyr) 56

# Rhestr o'r Ffigurau

Ffigur 46: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i gadw plant yn ddiogel a yn hapus ar-lein (Rhieni/Gofalwyr) 56
Ffigur 47: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i leihau effaith trais a chamdriniaeth yn y cartref ( Rhieni/Gofalwyr) 57
Ffigur 48: Grwpiau o blant sy'n cael eu trin yn annheg (Rhieni/Gofalwyr) 58
Ffigur 49: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i sicrhau bod pob person ifanc yn cael eu trin yn deg mewn ysgolion (Rhieni) 59
Ffigur 50: Cyfran y rhieni / gofalwyr a soniodd am rai sefydliadau oedd yn gofyn am farn plant (Rhieni / Gofalwyr) 60
Ffigur 51: Lefel y pryder ynghylch materion ym mywydau plant (Gweithwyr Proffesiynol) 62
Ffigur 52: Prif bryderon i blant (Gweithwyr Proffesiynol) 62
Ffigur 53: I ba raddau mae plant yn pryderu am faterion yn y byd ehangach (Gweithwyr Proffesiynol) 63
Ffigur 54: Materion mae plant yn pryderu fwyaf amdanyn nhw yn y byd ehangach (Gweithwyr Proffesiynol) 64
Ffigur 55: Pwysigrwydd materion posibl i'r Comisiynydd eu blaenoriaethu (Gweithwyr Proffesiynol) 65
Ffigur 56: Y blaenoriaethau pwysicaf i'r Comisiynydd (Gweithwyr Proffesiynol) 65
Ffigur 57: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i helpu plant gyda materion iechyd meddwl ac emosiynol (Gweithwyr Proffesiynol) 66
Ffigur 58: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i daclo bwlio (Gweithwyr Proffesiynol) 67
Ffigur 59: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i daclo bwlio ar-lein (Gweithwyr Proffesiynol) 68
Ffigur 60: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i gadw plant yn ddiogel ac yn hapus ar-lein (Gweithwyr Proffesiynol) ) 68
Ffigur 61: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i leihau effaith trais a chamdriniaeth (Gweithwyr Proffesiynol) 69
Ffigur 62: Grwpiau o blant sy'n cael eu trin yn annheg (Gweithwyr Proffesiynol) 70
Ffigur 63: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i sicrhau bod pob person ifanc yn cael eu trin yn deg mewn ysgolion (Gweithwyr Proffesiynol) 71
Ffigur 64: Cyfran y gweithwyr proffesiynol oedd yn adrodd eu bod yn holi barn plant, fesul sefydliad (Gweithwyr Proffesiynol) 72

# Rhestr o'r Tablau

Tabl 1: Cyfran y disgyblion yn y sampl o gymharu â'r boblogaeth 7
Tabl 2: Pryderon plant 7-11 oed: ymatebion penagored 12
Tabl 3: Pryderon pobl ifanc 11-18 oed: ymatebion penagored 23
Tabl 4: Gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn ôl rhywedd, amddifadedd materol ac anabledd (7-11 oed) 74
Tabl 5: Gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn ôl rhywedd, amddifadedd materol ac ethnigrwydd (11-18 oed) 75





# Cyflwyniad

Er mwyn galluogi Comisiynydd Plant Cymru (y Comisiynydd) i bennu blaenoriaethau ar gyfer ail ran ei chyfnod yn y swydd, lluniwyd arolygon i alluogi plant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr a gweithwyr proffesiynol i gyfrannu eu barn. Llywiwyd cynnwys yr arolygon hyn gan ganlyniadau'r arolwg Beth Nesa blaenorol, canfyddiadau adolygiad tystiolaeth a gomisiynwyd gan y Comisiynydd ynghylch hawliau dynol plant yng Nghymru, ac ymchwil ansoddol a wnaed gan dîm y Comisiynydd yng ngwanwyn a haf 2018. Roedd yr ymchwil ansoddol yma yn gofyn i blant, pobl ifanc, rhieni/ gofalwyr ac oedolion sy'n gweithio gyda phlant neu ar eu rhan beth oedd y prif faterion roedd plant a phobl ifanc yng Nghymru yn eu hwynebu, yn eu barn nhw.

**Am yr Arolwg**

Roedd yr arolwg yn cynnwys holiadur hunanlenwi y bu mwyafrif y plant yn ei gwblhau ar-lein. Roedd fersiynau papur o'r holiadur hefyd ar gael ar gais, a chwblhawyd rhai arolygon yn y fformat hwn. Rhannwyd yr arolygon yn ddwy ran.

Roedd y cyntaf yn canolbwyntio ar brofiadau a phryderon plant a phobl ifanc, gyda'r nod o sicrhau darlun o'r materion mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu.

Roedd yr ail adran yn edrych ar eu barn a'u safbwyntiau o ran beth dylai'r Comisiynydd ganolbwyntio arno yn ei hail dymor. Gofynnwyd iddyn nhw'n gyntaf gwestiwn amlddewis, i'w galluogi i ddewis pob mater roedden nhw'n meddwl oedd yn bwysig. Yna gofynnwyd iddyn nhw pa un o'r materion roedden nhw wedi'u dewis oedd bwysicaf yn eu barn nhw. Roedd yr opsiynau ar gyfer y cwestiwn yma yn aml wedi'u seilio ar y materion a godwyd gan blant yn elfen ansoddol y gwaith ymchwil. Holwyd y plant a phobl ifanc hefyd ynghylch y ffordd orau o ymdrin â rhai o'r materion hyn.

Cynhyrchwyd pum fersiwn ddwyieithog o'r arolwg:

- Fersiwn i blant 7-11 oed (gydag opsiwn Iaith Arwyddion Prydain (BSL))
- Fersiwn i bobl ifanc 11-18 oed (gydag opsiwn BSL)
- Fersiwn hygyrch gyda symbolau Widgit ar gyfer plant a phobl ifanc 7-18 oed
- Fersiwn i weithwyr proffesiynol (pobl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru neu ar eu rhan)
- Rhieni a gofalwyr

Trafodwyd yr un pynciau ym mhob arolwg; fodd bynnag, roedd yr iaith a'r eitemau'n amrywio. Y rheswm am hynny oedd er mwyn helpu i sicrhau bod y cwestiynau'n briodol ar gyfer lefelau dealltwriaeth yr ymatebwyr, a'u bod yn ymdrin â materion oedd yn debygol o fod yn berthnasol i bob grŵp.

Cafodd gwybodaeth am yr arolwg, gan gynnwys dolenni i'r arolygon ar-lein eu hunain, eu hyrwyddo a'u dosbarthu mor eang â phosibl yng Nghymru. Roedd hyn yn golygu defnyddio cysylltiadau presennol y Comisiynydd ag amrywiaeth eang o randdeiliaid sy'n gweithio gyda phlant ac ar eu rhan a thrwy Gynlluniau Llysgenhadon Ysgolion a Chymuned y Comisiynydd. Dosbarthwyd

# Cyflwyniad

gwybodaeth trwy e-bost, a defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol hefyd i hyrwyddo'r arolwg yn uniongyrchol ymhlith plant, pobl ifanc ac oedolion.

Bu staff y Comisiynydd hefyd yn hyrwyddo'r arolwg wrth wneud eu gwaith arall wyneb yn wyneb â phlant, pobl ifanc ac oedolion.

Am y tro cyntaf crewyd côd QR (Côd Ymateb Cyflym) yn ogystal, oedd yn golygu bod modd i ddefnyddwyr ffonau clyfar sganio'r côd ar eu ffôn er mwyn mynd yn syth i dudalen yr arolwg ar y we heb deipio cyfeiriad gwefan.

Roedd cwblhau'r arolwg yn wirfoddol, ac roedd modd gwneud hynny ar unrhyw adeg. Roedd yr arolwg ar agor i'w gwblhau am 5 wythnos yn hydref 2018, ac roedd yn cynnwys cyfnod oedd yn rhan o wyliau'r ysgol.

**Strwythur yr adroddiad a chyflwyno'r canfyddiadau**

Yn yr adroddiad hwn, mae gwahanol adrannau wedi cael eu cynhyrchu, yn amlinellu canfyddiadau pob arolwg, er bod rhywfaint o gymharu rhyngddynt lle bo hynny'n briodol.

Mae pob adran yn dechrau gyda throsolwg o'r rhai gwblhaodd yr arolwg, gan gynnwys faint gwblhaodd yr arolwg (maint y sampl). Yna mae'n dilyn strwythur cwestiynau'r arolwg yn fras;

- profiadau a phryderon
- barn a safbwyntiau ynghylch gwaith y Comisiynydd a beth allai weithio orau i roi sylw i rai materion penodol mae plant a phobl ifanc yn eu hwynebu

At ddiben yr adroddiad hwn, defnyddir y termau plant a phobl ifanc fel ei gilydd i ddisgrifio unrhyw un o dan 18 oed.

Roedd yr arolwg hwn yn cynnwys cwestiynau lle gallai'r ymatebwyr ddewis un ymateb neu fwy nag un.

Yn achos y cwestiynau un dewis mae'r holl ganrannau wedi cael eu crynhoi i'r un pwynt canran agosaf, felly mae'n bosibl na fydd cyfansymiau'r cwestiynau'n creu 100% union.

Yn achos cwestiynau lle gallai'r ymatebwyr ddewis mwy nag un ymateb – ni fydd cyfanswm y canrannau'n creu 100%.

Mae adran olaf yr adroddiad yn darparu dadansoddiad o'r gwahaniaethau rhwng is-grwpiau o blant





# Cynrychioldeb

Cyfrifwyd cynrychioldeb y sampl gan ddefnyddio data ynghylch nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn ym mhob rhanbarth o'r Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (PLASC). Yna cymharwyd hynny â chyfran y plant yn ein sampl oedd yn dweud eu bod yn byw ym mhob rhanbarth. Cafodd disgyblion a atebodd 'ddim yn gwybod' eu heithrio o'r dadansoddiad, ac felly bydd y cyfrannau 'gwirioneddol' rywfaint yn wahanol i'r rhai sydd yn Nhabl 1 isod. Dim ond 36 o ddisgyblion gwblhaodd y fersiwn hygyrch o'r arolwg, ac felly nid oedd modd cyfrifo cynrychioldeb y sampl fesul rhanbarth yn achos y grŵp hwn.

*Tabl 1: Cyfran y disgyblion yn y sampl o gymharu â'r boblogaeth*

| | 7-11 oed | | 11-18 oed | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfran o'r sampl | Cyfran o'r boblogaeth | Cyfran o'r sampl | Cyfran o'r boblogaeth |
| **Gogledd Cymru** | 16.8 | 22.0 | 6.0 | 21.6 |
| **De-orllewin a Chanolbarth Cymru** | 33.8 | 27.2 | 18.0 | 27.9 |
| **Canol De Cymru** | 34.4 | 31.4 | 37.4 | 31.3 |
| **De-ddwyrain Cymru** | 15.1 | 19.4 | 38.6 | 19.1 |

# Cynrychioldeb

Roedd cyfran y plant yn y boblogaeth ym mhob rhanbarth yn gyffredinol debyg i'r sampl a gyflawnwyd ar gyfer yr arolwg 7-11, er bod cyfrannau'r sampl yn Ne-orllewin a Chanolbarth Cymrua Chanol De Cymru rywfaint yn uwch nag yn y boblogaeth. Roedd y De-orllewin wedi'i orgynrychioli yn y sampl 11-18 oed, ac roedd cyfran Gogledd Cymru yn isel iawn yn yr arolwg 11-18 oed.

Allwn ni ddim cyfrifo pa mor gynrychioliadol yw'r sampl o ran amddifadedd materol gan nad oes gwybodaeth genedlaethol ar gael y gellir ei chymharu â'r mesuriad a ddefnyddir yn yr arolwg hwn. Cyfrifir y sgôr Amddifadedd Materol trwy gyfrifo nifer yr eitemau mae plant yn dweud eu bod hebddynt; mae sgôr uwch yn arwydd o lefel uwch o amddifadedd. Yn achos rhai eitemau ar y raddfa, roedd y lefelau amddifadedd yr adroddwyd amdanynt yn arbennig o uchel. Er enghraifft, dywedodd dros hanner y plant yn y grŵp 7-11 fod ganddyn nhw ddim ffôn symudol, iPod, arian i'w wario nac arian i gynilo. Serch hynny, gan fod y raddfa'n holi am bresenoldeb eitem yn hytrach na'i fforddiadwyedd, mae'n bosibl bod yr eitemau hyn ddim yno oherwydd dewisiadau magu plant. Oherwydd hynny, fe benderfynon ni eithrio'r eitemau hyn o'r dadansoddiad. Mae'r dechneg o fesur a'r eitemau a eithriwyd yn golygu nad oes modd cymharu'r raddfa derfynol a ddefnyddiwyd yn uniongyrchol ag unrhyw raddfa arall. O ganlyniad, y cyfan mae'r mesuriad hwn yn ei ddweud wrthyn ni yw lefel amddifadedd ein hymatebwyr o gymharu â phlant eraill yn y sampl, nid o gymharu â holl boblogaeth plant Cymru.



Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissoner for Wales
Beth Nawr, 2019

# Pobl ifanc 7-11 oed

Cafwyd 6902 o ymatebion i'r arolwg ar gyfer rhai 7-11 oed. O'r rhain:

- roedd 61 y cant yn 9 oed neu'n iau
- roedd 47 y cant yn fenywod a 50 yn wrywod, roedd yn well gan 3 y cant beidio â dweud
- roedd 99 y cant o'r cyfranogwyr yn mynd i'r ysgol, ond doedd 1 y cant ddim. Roedd mwyafrif y rhai oedd ddim yn cael addysg gartref neu wedi'u gwahardd o'r ysgol
- dywedodd 5 y cant eu bod yn anabl, ac roedd 12 y cant yn ansicr
- roedd 28 y cant yn siarad Cymraeg gartref
- dywedodd 34 y cant eu bod yn mynd i ysgol Gymraeg a dywedodd 9 y cant eu bod yn mynd i ysgol ddwyieithog.

**Dysgu**

Yng nghyfnod ansoddol yr ymchwil Beth Nawr, dywedodd nifer o'r plant a'r bobl ifanc wrth dîm y Comisiynydd bod yna bynciau roedden nhw eisiau dysgu mwy amdanynt yn yr ysgol, ac felly cafodd cwestiwn penagored ei gynnwys yn yr arolwg, er mwyn canfod barn plant am hyn.

Cyflwynir y pum pwnc isod, yn nhrefn poblogrwydd.

1. Mathemateg
2. Celf
3. Hanes
4. Gwyddoniaeth
5. Addysg Gorfforol

Roedd mwyafrif yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn atebion un gair, ac felly doedd e ddim yn eglur a oedd plant am ddysgu mwy o fathemateg oherwydd eu bod yn cael ei fod yn heriol ac eisiau gwella, neu oherwydd eu bod nhw'n mwynhau'r pwnc. Roedd yr ambell ymateb oedd yn cynnwys mwy o esboniad yn dangos bod rhesymau cymysg gan y disgyblion:

*"Mae angen mwy o help arna i gyda Mathemateg" (Bachgen, 10)*

*"Rwyn hoffi neud mathemateg" (Merch, 9)*

Roedd yr ymatebion ynghylch celf hefyd yn rhai un gair at ei gilydd, er bod nifer o'r disgyblion wedi nodi eu bod nhw am gael mwy o gelf oherwydd eu bod nhw ddim yn gwneud llawer o hynny yn yr ysgol.

*"rydw i yn hoffi gwneud art ond ni ddim yn gwneud e lot so please ydyn ni yn gallu neud mwy" (Merch, 10)*

# Pobl ifanc 7-11 oed

Ym maes hanes, roedd plant yn aml yn enwi'r ddau Ryfel Byd fel pynciau y bydden nhw'n hoffi dysgu mwy amdanyn nhw, ac yn achos gwyddoniaeth, dywedodd sawl plentyn y bydden nhw'n hoffi dysgu mwy am y corff dynol neu'r gofod.

Gofynnwyd i'r plant oedd yn cael eu haddysg gartref oedd yna unrhyw beth arall y bydden nhw'n hoffi dysgu amdano gartref. O'r 15 a ymatebodd, roedd y rhan fwyaf yn gadarnhaol ac yn dweud eu bod nhw ddim eisiau dysgu am unrhyw beth arall.


*"Mae gen i amrywiaeth mawr o bynciau, mwy na byddwn i'n gallu astudio yn yr ysgol." (Bachgen, 8)*

Dywedodd tri disgybl y bydden nhw'n hoffi dysgu mwy am bynciau Gwyddoniaeth.

**Pryderon plant**

Gofynnwyd cwestiwn amlddewis i blant 7-11 oed am eu pryderon. Cawson nhw restr o faterion a gofynnwyd iddyn nhw ddewis pa rai roedden nhw'n poeni amdanyn nhw. Roedd yr eitemau wedi'u seilio ar y mathau o ymateb roedd plant wedi'u codi yn yr ymchwil ansoddol yng Nghyfnod 1 prosiect Beth Nawr. Mae canlyniadau'r cwestiwn cyntaf i'w gweld yn Ffigur 1 isod. Mae'r data'n dangos mai profion a bwlio yw'r materion roedd y plant yn yr arolwg yn pryderu fwyaf amdanyn nhw.

*Ffigur 1: Pryder am faterion (plant 7-11 oed)*






Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissoner for Wales
Beth Nawr, 2019

# Pobl ifanc 7-11 oed

Yn dilyn y cwestiwn hwn, gofynnwyd i'r plant oedd yna unrhyw beth arall yn eu poeni. Mae Tabl 2 isod yn cyflwyno'r ymatebion mwyaf cyffredin yn eu trefn, gydag enghreifftiau. Roedd llawer o'r materion hyn yn adlewyrchu'r rhai yr holwyd amdanynt yn y cwestiwn caeedig uchod:

*Tabl 2: Pryderon plant 7-11 oed: ymatebion penagored*

| Thema | Enghraifft |
|---|---|
| Materion teulu fel salwch a marwolaeth, rhieni'n ymwahanu a gwrthdaro rhwng aelodau'r teulu | *"Dad yn dost." (Bachgen, 8)*<br><br>*"Rwy'n poeni bydd dad yn gadael y teulu eto." (Merch, 10)*<br><br>*"Mae fy rhieni'n ysgaru, ac rwy'n ofni byddwn ni ddim yn hapus" (Bachgen, 10)* |
| Bwlio, gan gynnwys bwlio ar-lein | *"Bwlio yn yr ysgol, fel pobl yn dweud pethau cas am liw croen." (Merch, 9)*<br><br>*"Pobl yn bod yn gas wrtha i ar-lein" (Bachgen, 9)*<br><br>*"Rydw i'n poeni am bwlio oherwydd rydw i'n cael bwlio pob dydd trwy dydd." (Merch, 10)* |
| Gwaith ysgol a phrofion | *"Y peth rydw i'n poeni amdano fe yw, os bydda i'n rhoi fy llaw i fyny, beth fydd yn digwydd os bydda i'n anghywir." (Merch, 10)*<br><br>*"Pa lefel bydda i'n cael ar ddiwedd y flwyddyn" (Bachgen, 10)*<br><br>*"Weithiau bydda i'n poeni am brofion achos mod i dan lawer o bwysau." (Merch, 9)* |
| Materion yn ymwneud â ffrindiau, gan gynnwys diffyg ffrindiau, dadleuon gyda ffrindiau a phryderon ynghylch peidio â ffitio i mewn. | *"does neb isho chware hefo fi." (Bachgen, 7)*<br><br>*"Mod i ddim yn ffitio mewn yn dda" (Merch, 10)*<br><br>*"ambell waith byddaf ffrindiau yn fod yn gas." (Merch, 11)* |


# Pobl ifanc 7-11 oed

Mae'r ymatebion yn dangos bod perthynas iach a sefydlog gyda ffrindiau, teulu a chyfoedion yn bwysig iawn i'r plant yn yr arolwg. Roedd unrhyw beth oedd yn amharu ar fywyd y teulu, fel rhieni'n ymwahanu neu salwch yn y teulu yn destun pryder arbennig i blant. Roedden nhw hefyd yn pryderu'n fawr am eu perfformiad yn yr ysgol, gyda phryder am brofion yn beth mawr. Mae'n debygol mai'r profion mae'r plant yn cyfeirio atyn nhw yw'r profion Darllen a Rhifedd Cenedlaethol blynyddol i blant 7-14 oed yng Nghymru.

**Ymgysylltiad Rhieni / Gofalwyr â bywydau plant**

Holwyd plant i ba raddau roedd eu rhiant neu eu gofalwr (rhiant/gofalwr) yn ymgysylltu â gweithgareddau penodol gyda nhw ar raddfa o 1-5, lle roedd 1 = ddim o gwbl a 5 = llawer (Ffigur 2). [1]

*Ffigur 2: Faint o amser mae plant yn dweud bod rhiant/gofalwr yn treulio ar amrywiol weithgareddau (7-11 oed)*




[1] Nid yw'r holl ffigurau'n creu cyfanswm o 100 oherwydd crynhoi






# Pobl ifanc 7-11 oed

Dywedodd mwyafrif y plant fod eu rhiant/gofalwr yn aml yn eu holi am yr ysgol ac yn bwyta prydau gyda nhw. Dywedodd dros draean eu bod nhw'n cael help gyda gwaith cartref gan eu rhiant/gofalwr pan fyddai angen. Mae'r canlyniadau ynghylch defnydd rhieni/gofalwyr o ffonau symudol yn fwy cymysg, gyda 37 y cant yn dewis 4 neu 5 wrth ateb y cwestiwn hwn, a 43 y cant yn dewis 1 neu 2.

Roedd cwestiwn arall yn gofyn i'r plant pa mor anodd oedd sicrhau sylw eu rhieni/gofalwyr pan fydden nhw'n defnyddio'u ffonau symudol. Fel mae Ffigur 3 isod yn dangos, roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn hefyd yn gymysg. Dewisodd 45 y cant 4 neu 5, oedd yn golygu bod hynny'n hawdd iddyn nhw, tra bod 32 y cant wedi dewis 1 neu 2, gan awgrymu bod hynny'n anoddach iddyn nhw.


*Ffigur 3: Pa mor hawdd oedd cael sylw gan rieni/gofalwyr pan fydden nhw'n defnyddio f fôn symudol (7-11 oed)*



# Pobl ifanc 7-11 oed

Roedd cwestiwn dilynol yn holi a oedd plant erioed wedi gofyn i'w rhiant/gofalwr roi'r gorau i ddefnyddio ffôn symudol yn eu presenoldeb (Ffigur 4). Dywedodd 38 y cant o'r plant 7-11 oed eu bod nhw wedi gofyn i riant stopio.

*Figur 4: Ydyn nhw erioed wedi gofyn i riant/gofalwr roi'r gorau i ddefnyddio ffôn symudol (7-11 oed)*




Gofynnwyd cwestiwn penagored i'r rhai ddewisodd 'ydw' wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, yn gofyn iddyn nhw esbonio pam. Mae mwyafrif yr ymatebion yn dangos mai eisiau mwy o sylw gan eu rhiant oedd y prif reswm. Dywedodd sawl plentyn fod eu rhieni/gofalwyr yn ymateb llai iddyn nhw pan fydden nhw'n defnyddio'u ffonau, ac roedd llawer yn cwyno bod eu rhieni/gofalwyr yn eu defnyddio'n ormodol. Ceir enghreifftiau isod:

*"…oherwydd maen nhw'n pallu gwrando arna i na dim byd, na rhoi sylw i beth rydw i angen pan fyddan nhw ar eu ffôn symudol." (Merch, 10)*

*"….achos maen nhw'n treulio mwy o amser ar eu ffonau na gyda fi." (Merch, 9)*

*"…achos bod hi arno fe drwy'r amser, drwy'r dydd." (Bachgen, 7)*

Yn aml, roedd plant yn sôn am rwystredigaeth pan fyddai defnyddio ffôn yn torri ar draws amser teulu, er enghraifft yn ystod amser bwyd neu weithgaredd teuluol.





# Pobl ifanc 7-11 oed


*"…achos bod e wastod arno fe, hyd yn oed pan fyddwn ni'n bwyta"(Bachgen, 9)*

*"Pan fyddwn ni'n cael noson gêmau i'r teulu, mae dad wastod ar ei ffôn. Rydw i'n treio siarad gyda fy rhieni, ond maen nhw wastod yn brysur ar eu ffonau." (Merch, 10)*

**Defnydd plant o dechnoleg**

Holwyd plant hefyd am eu defnydd nhw o dechnoleg. Roedd y cwestiwn yn gofyn faint o amser roedden nhw wedi'i dreulio yn defnyddio ffonau symudol, tabledi, cyfrifiaduron neu gonsolau gêmau yn ystod y 24 awr diwethaf (Ffigur 5).

*Figur 5: Faint o amser dreuliwyd yn defnyddio dyfeisiau yn ystod y 24 awr diwethaf (7-11 oed)*




Doedd cyfran gymharol uchel ddim yn defnyddio unrhyw un o'r dyfeisiau hyn. Efallai bod hynny oherwydd bod eu rhieni/gofalwyr yn barnu eu bod nhw'n rhy ifanc. Ond roedd lleiafrif sylweddol o blant 7-11 oed yn adrodd eu bod wedi defnyddio'u dyfeisiau am sawl awr y dydd. Yn benodol, dywedodd 15 y cant o'r plant eu bod wedi defnyddio consol gêmau am fwy na 5 awr yn ystod y cyfnod diwethaf o 24 awr.


# Pobl ifanc 7-11 oed

**Barn ynghylch blaenoriaethau'r Comisiynydd**

Roedd adran nesaf yr arolwg yn gofyn barn y plant ynghylch beth dylai'r Comisiynydd ei wneud i wella bywydau plant. Gofynnwyd cwestiwn amlddewis iddyn nhw gyntaf, i'w galluogi i ddewis pob mater roedden nhw'n meddwl oedd yn bwysig. Yna gofynnwyd iddyn nhw p'un o'r materion roedden nhw wedi'u dewis oedd bwysicaf yn eu barn nhw. Roedd yr opsiynau ar gyfer y cwestiwn hwn wedi'u seilio ar y materion a godwyd gan blant yn llinyn ansoddol yr ymchwil.

Fel y dangosir yn Ffigur 6 isod, yr opsiwn mwyaf poblogaidd yn y cwestiwn amlddewis oedd stopio bwlio, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau plant yn [Beth Nesa.](#) Cafodd cadw plant yn ddiogel a helpu plant sy'n drist neu'n pryderu llawer eu dewis hefyd gan gyfran sylweddol o'r plant 7-11 oed.

*Ffigur 6: Barn ynghylch beth dylai'r Comisiynydd ei wneud i wella bywydau plant A beth ddylai fod yn flaenoriaethau iddi er mwyn gwella bywydau plant (7-11 oed)*








# Pobl ifanc 7-11 oed


Yn y cwestiwn ynghylch beth sydd bwysicaf, cadw plant yn ddiogel a helpu plant sydd heb ddigon o arian oedd y prif flaenoriaethau, gyda stopio bwlio yn dynn iawn ar eu sodlau.

**Beth allai helpu plant?**

Yng nghyfnod ansoddol ymchwil Beth Nawr, dywedodd nifer o'r plant a'r oedolion wrth dîm y Comisiynydd fod iechyd meddwl/llesiant a bwlio yn faterion allweddol, ac yn dal i fod yn her o ran rhoi cymorth.

Gofynnwyd cwestiynau mwy manwl i'r plant 7-11 oed yn yr arolwg ynghylch beth roedden nhw'n meddwl ddylai gael ei wneud i helpu plant sy'n drist neu'n pryderu llawer (Ffigur 7), a phlant sy'n cael eu bwlio (Ffigur 8).

*Ffigur 7: Y syniad gorau ar gyfer helpu plant sy'n drist neu'n pryderu llawer (7-11 oed)*




# Pobl ifanc 7-11 oed

Mae'r opsiynau gafodd eu dewis gan fwyafrif y plant yn awgrymu y bydden nhw'n hoffi i'r ysgol fod yn ganolog i ymyriadau sy'n hybu llesiant meddwl plant. Yr opsiwn mwyaf poblogaidd oedd sicrhau bod rhywle yn yr ysgol y gallai pob plentyn fynd iddo pan fyddai angen help arnynt, ac roedd dros chwarter y plant eisiau gwersi am fod yn 'hapus a iach' yn yr ysgol.

Y brif flaenoriaeth ar gyfer stopio bwlio oedd sicrhau bod athrawon yn cymryd bwlio o ddifri, fel sydd i'w weld yn Ffigur 8 isod.

*Ffigur 8: Y syniad gorau i stopio bwlio (7-11 oed)*







Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissoner for Wales
Beth Nawr, 2019

# Pobl ifanc 7-11 oed

**Cyfleoedd i blant roi eu barn**

Yn yr adran nesaf, gofynnwyd i'r plant a oedd y Comisiynydd Plant, athro neu riant/gofalwr erioed wedi gofyn eu barn. Cyflwynir eu hymatebion yn Ffigur 9 isod:

*Ffigur 9: Cyfran y plant oedd yn sôn am ymgynghori â nhw, yn ôl y math o ymgynghori (7-11 oed)*




Dywedodd bron dau draean o'r plant yn yr arolwg fod athro neu riant wedi gofyn eu barn. Dywedodd 21 y cant yn unig fod y Comisiynydd wedi gofyn eu barn, er bod nifer fawr wedi dweud eu bod yn ansicr. Mae'n bosib mai'r rheswm am hynny oedd bod rhai plant wedi rhoi ateb cadarnhaol dim ond os gofynnwyd eu barn yn bersonol.

# 11-18 oed

Cwblhaodd 2300 o bobl ifanc y fersiwn o'r arolwg i rai 11-18 oed. O'r rhain:

- Roedd 71 y cant yn 14 oed neu'n iau.
- Roedd 49 y cant yn fenywod a 47 y cant yn wrywod. Roedd 1 y cant yn drawsrywiol.
- Doedd 2 y cant o'r bobl ifanc ddim yn mynd i'r ysgol, am resymau megis addysgu gartref, gwaharddiadau neu iechyd gwael.
- Roedd 83 y cant yn wyn.
- Roedd 16 y cant yn siarad Cymraeg gartref.
- Roedd 23 y cant yn dweud eu bod yn mynd i ysgol Gymraeg a 14 y cant yn dweud eu bod yn mynd i ysgol ddwyieithog.
- Roedd 7 y cant o'r sampl yn dweud bod ganddyn nhw anabledd.

**Dysgu**

Cafodd cwestiwn oedd yn gofyn hoffen nhw ddysgu mwy am rywbeth arall yn yr ysgol ei gynnwys mewn cwestiwn penagored yn yr arolwg i bobl ifanc 11-18 oed. Cyflwynir y pum dewis mwyaf poblogaidd yn nhrefn amlder isod:

1. Sgiliau bywyd
2. Gwyddoniaeth
3. Addysg Gorfforol
4. Hanes
5. Cyfrifiadura a TGCh

Sgiliau bywyd oedd y dewis mwyaf poblogaidd o bell ffordd ymhlith y grŵp oed yma. Dywedodd sawl ymatebydd a atebodd y cwestiwn penagored eu bod am ddysgu mwy am bynciau ariannol fel cyllidebu, talu biliau, trethi a morgeisi.

*"Byddwn i'n hoffi dysgu am y pethau fydd yn bwysig i fi ar ôl gadael ysgol, fel sut mae delio gyda materion ariannol, trethi ac ati." (Bachgen, 15)*

*Roedd eraill eisiau gwybod yn fwy cyffredinol am fywyd ar ôl gadael yr ysgol, a dysgu sgiliau ymarferol fel sut i ysgrifennu CV a gofalu am blentyn:*

*"Profiadau bywyd go iawn, fel cael swydd, gofalu am blant ac ati." (Merch, 13)*

Ni roddodd y rhan fwyaf o'r rhai a atebodd eu bod nhw am ddysgu rhagor o wyddoniaeth fanylion pellach am y math o wersi gwyddoniaeth roedden nhw eisiau. Ond ysgrifennodd lleiafrif y bydden nhw'n hoffi dysgu mwy am bynciau fel y corff dynol a'r gofod. Dewisodd mwyafrif y rhai a soniodd eu bod eisiau astudio cyfnod penodol mewn hanes y rhyfeloedd byd. Y pwnc mwyaf poblogaidd ymhlith y rhai a ysgrifennodd eu bod nhw am gael rhagor o wersi cyfrifiadura neu TGCh oedd codio.

Gofynnwyd i'r bobl ifanc oedd yn cael eu haddysgu gartref fydden nhw'n hoffi dysgu am unrhyw beth arall gartref. Roedd y mwyafrif yn hapus gyda'r dysgu adref, er bod un wedi sôn am fethu dysgu Cymraeg gartref ar ôl methu cael hyd i diwtor Cymraeg.






# 11-18 oed

**Pryderon pobl ifanc**

Holwyd y garfan hŷn o bobl ifanc i ba raddau roedden nhw'n pryderu am gyfres o faterion ar raddfa o 1-9 lle roedd 1=ddim o gwbl a 9 = llawer (Ffigur 10). Cafodd opsiynau ychwanegol eu cynnwys i'r grŵp hwn oedd ddim yn yr arolwg i'r plant iau, yn adlewyrchu'r ystod ehangach o faterion posibl yr oedd y garfan hŷn yn eu hwynebu, fel eu rhagolygon i'r dyfodol wrth nesáu at ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Y mater allweddol i blant a phobl ifanc oedd eu gwaith ysgol a phrofion/arholiadau. Fodd bynnag, ymhlith pobl ifanc 11-18 oed, pryderon ynghylch eu bywyd ar ôl gadael yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol a sut roedden nhw'n edrych yn gorfforol oedd amlycaf.

*Ffigur 10: Lefel y pryder ynghylch materion ym mywydau plant (11-18 oed)*




# 11-18 oed

Holwyd y rhai 11-18 oed hefyd oedden nhw'n pryderu am faterion mwy cyffredinol yn y byd, fel yr amgylchedd a brawychiaeth (Ffigur 11). Cafodd y cwestiwn hwn ei gynnwys oherwydd i'r mathau hyn o faterion gael eu codi gan blant y bu tîm y Comisiynydd yn ymgynghori â nhw yn llinyn ansoddol prosiect Beth Nawr.

Brawychiaeth oedd y prif bryder ymhlith y bobl ifanc yn yr arolwg, gyda rhyfel a digartrefedd yn dilyn.

*Ffigur 11: Lefel y pryder ynghylch materion byd-eang (11-18 oed)*








# 11-18 oed

Hefyd gofynnwyd cwestiwn penagored i'r bobl ifanc yn yr arolwg 11-18 oed ynghylch a oedd ganddyn nhw unrhyw bryderon eraill. Mae'r prif ymatebion, gan ddechrau gyda'r rhai oedd yn digwydd amlaf, i'w gweld yn Tabl 3 isod.

*Tabl 3: Pryderon pobl ifanc 11-18 oed: ymatebion penagored*

| Pryder | Enghraifft |
|---|---|
| Materion teuluol, fel salwch, gwrthdaro a rhieni'n ymwahanu | *"Bydd i byth yn mynd i gweld fy Dad eto." (Bachgen, 11).*<br>*Mam yn bod yn dost." (Merch, 13)*<br>*"colli fy rhieni ac aelodau o'r teulu." (Bachgen, 12)* |
| Pryderon cyffredinol, gan gynnwys ymatebion ynghylch faint o sefyllfaoedd sy'n eu gwneud yn bryderus | *"Yn gyffredinol, rwy'n pryderu llawer am lawer o bethau o ddydd i ddydd." (Merch, 14)*<br>*"Popeth." (Bachgen, 11)*<br>*"*<br>*Rwy'n pryderu am bryderu." (Merch, 15)* |
| Yr amgylchedd a byd natur | *"Cynhesu byd-eang." (Bachgen, 15)*<br>*"rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion yn marw allan." (Merch, 17)*<br>*"Di-goedwigo." (Bachgen, 14)* |

# 11-18 oed

| | |
|---|---|
| Gwleidyddiaeth a digwyddiadau byd-eang | *"Ein cenhedlaeth ni yn gorfod delio gyda phroblemau'r byd, a gwneud pethau'n well, yn lle gwaeth." (Merch, 12)*<br><br>*"Hil-laddiad yn Myanmar. Donald Trump." (Bachgen, 14)*<br><br>*"Donald Trump. Vladmir Putin. Bomiau." (Merch, 12)* |
| Rhagolygon i'r dyfodol | *"Rwy'n pryderu llawer am fy nyfodol" (Merch, 12)*<br><br>*"Methu cael swydd pan fydda i'n fwy achos bod gen i broblemau dysgu a phroblemau deall." (Bachgen, 14)*<br><br>*"methu cael swydd dda a methu fforddio pethau" (Merch, 13)* |
| Ysgol, gan gynnwys pryderu am arholiadau a gwaith cartref | *"ysgol; gorfod rhuthro gyda'ch gwaith cartref, cael llwyth o waith cartref, astudio ar gyfer prawf ac ati." (Merch, 12)*<br><br>*"Rwy'n pryderu'n bennaf am TGAU." (Bachgen, 11)*<br><br>*"Peidio â gwneud yn dda yn yr ysgol." (Bachgen, 13)* |
| Bwlio | *"Cael eich seiberfwlio gan bobl eraill" (Merch, 11)*<br><br>*"os ydw i methu wneud rhywbeth a bydd plant yn creu hwyl arna fi." (Bachgen, 11)* |






# 11-18 oed

**Ymwneud rhieni/gofalwyr â bywydau pobl ifanc**

Gofynnwyd cwestiwn i'r bobl ifanc 11-18 oed hefyd ynghylch i ba raddau roedd eu rhiant/gofalwr yn ymgysylltu â gweithgareddau penodol gyda nhw. (Ffigur 12).

*Figur 12: Faint o amser mae plant yn dweud bod rhiant neu ofalwr yn ei dreulio ar amrywiol weithgareddau (11-18 oed)*





Mae'r canlyniadau yn dangos bod mwyafrif y bobl ifanc wedi cael eu holi ynghylch yr ysgol, yn bwyta prydau gyda'u rhiant/gofalwr ac yn cael help gyda'u gwaith cartref pan fyddai angen. Roedden nhw'n llai tebygol o ddweud bod eu rhiant/gofalwr yn defnyddio'u ffonau llawer o'u hamgylch, gyda 36 y cant yn dewis rhwng 6 a 9 ar y raddfa o 1-9 (lle roedd 9= llawer).

# 11-18 oed

Holwyd y bobl ifanc 11-18 oed pa mor hawdd oedd hi iddyn nhw gael sylw gan eu rhieni/gofalwyr pan oedden nhw'n defnyddio'u ffonau symudol, ar raddfa o 1-9 lle roedd 1=ddim yn hawdd o gwbl a 9 = hawdd iawn (Ffigur 13).

*Ffigur 13: Pa mor hawdd yw cael sylw gan rieni/gofalwyr pan fyddan nhw'n defnyddio f fonau symudol (11-18 oed)*




Dewisodd mwyafrif y bobl ifanc 11-18 oed yn yr astudiaeth, 62 y cant, 6-9 ar gyfer y cwestiwn yma, oedd yn dangos nad oedden nhw fel arfer yn cael trafferth i sicrhau sylw gan eu rhieni/gofalwyr. Fodd bynnag, dewisodd 27 y cant atebion rhwng 1 a 4, oedd yn awgrymu eu bod nhw'n cael hynny'n heriol.




Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissoner for Wales
Beth Nawr, 2019

# 11-18 oed

**Defnydd pobl ifanc o dechnoleg**

Yn dilyn y cwestiynau am ddefnydd eu rhieni/gofalwyr o dechnoleg, holwyd y bobl ifanc 11-18 oed ynghylch faint roedden nhw eu hunain wedi defnyddio ffonau symudol, tabledi, cyfrifiaduron a chonsolau gêmau yn ystod y 24 awr diwethaf (Ffigur 14).

*Ffigur 14: Faint o amser dreuliwyd yn defnyddio dyfeisiau yn ystod y 24 awr diwethaf (11-18 oed)*




Mae'r data'n dangos mai ffonau symudol oedd y ddyfais a ddefnyddiwyd amlaf ymhlith yr ymatebwyr, gyda chwarter yn unig yn dweud eu bod wedi defnyddio ffôn am awr neu lai yn ystod y 24 awr diwethaf, a chwarter yn dweud eu bod wedi treulio mwy na 5 awr arno yn ystod y cyfnod hwnnw. Roedd 47 y cant wedi'i ddefnyddio am 3 awr neu fwy.


Y defnydd o dabledi oedd y lleiaf cyffredin, gyda 56 y cant yn dweud eu bod heb ddefnyddio un ystod y cyfnod hwn. Mae'n bosib bod hynny oherwydd bod tabledi gan lai o bobl ifanc. Er bod 47 y cant heb ddefnyddio consol gêmau o gwbl, roedd 16 y cant o'r ymatebwyr wedi defnyddio un am fwy na phum awr.

# 11-18 oed

**Hyder, diogelwch ac unigrwydd**

Holwyd pobl ifanc yn y grŵp oed hŷn yma ynghylch pa mor aml roedden nhw'n teimlo'n ddiogel, yn unig, yn bryderus am sut roedden nhw'n edrych ac yn hyderus am y dyfodol (Ffigur 15).

*Ffigur 15: Amlder teimladau cadarnhaol a negyddol am faterion penodol (11-18 oed)*




Dewisodd 36 y cant o bobl ifanc rhwng 1 a 4 pan ofynnwyd pa mor aml roedden nhw'n hyderus am eu dyfodol, oedd yn dangos eu bod nhw'n aml yn brin o hyder. Dewisodd 32 y cant rhwng 6 a 9 i'r cwestiwn ynghylch pa mor aml roedden nhw'n pryderu am sut roedden nhw'n edrych. Dywedodd y mwyafrif llethol mai anaml iawn y bydden nhw'n teimlo'n unig, a'u bod nhw'n aml yn teimlo'n ddiogel.






# 11-18 oed

**Barn ynghylch blaenoriaethau'r Comisiynydd**

Cyflwynwyd rhestr o faterion i'r bobl ifanc 11-18 oed, a gofyn iddyn nhw pa mor bwysig oedd hi bod y Comisiynydd yn gweithio gyda nhw ar raddfa o 1-9, lle roedd 1= ddim yn bwysig o gwbl, a 9 = pwysig iawn. Roedd y cwestiwn hwn yn caniatáu i gyfranogwyr ddewis mwy nag un ateb. Dangosir yr ymatebion yn Ffigur 16 isod:

*Ffigur 16: Pwysigrwydd materion posibl i'r Comisiynydd roi blaenoriaeth iddyn nhw (11-18 oed)*





Y mater pwysicaf i bobl ifanc 11-18 oed oedd amddiffyniad rhag trais a chamdriniaeth. Dewisodd 77 y cant 8 neu 9 ar gyfer y mater hwn. Yr ail oedd sicrhau bod pob person ifanc yn cael cyfle cyfartal mewn bywyd, a dewisodd 74 y cant 8-9 ar gyfer hynny. Roedd sicrhau bod pobl ifanc yn cael y gefnogaeth gywir ar gyfer problemau emosiynol neu iechyd meddwl yn ddewis poblogaidd hefyd, gyda 72 y cant yn dewis 8 neu 9 ar gyfer y cwestiwn hwn.

Yna gofynnwyd cwestiwn pellach oedd yn caniatáu iddyn nhw ddewis pa rai o'r opsiynau hyn roedden nhw'n credu oedd yr opsiwn 'pwysicaf' i'r Comisiynydd weithio arno (Ffigur 17). Barnwyd mai 'sicrhau bod plant yn cael yr help cywir ar gyfer problemau emosiynol neu iechyd meddwl' oedd y ffocws pwysicaf ar gyfer pobl ifanc 11-18 oed, opsiwn a ddewiswyd gan 29 y cant o'r cyfranogwyr. Amddiffyniad rhag trais a chamdriniaeth oedd yr ail opsiwn mwyaf poblogaidd (23 y cant).

# 11-18 oed

*Ffigur 17: Y blaenoriaethau pwysicaf i'r Comisiynydd (11-18 oed)*




Yna gofynnwyd cyfres o gwestiynau manylach i'r bobl ifanc yn y grŵp oed yma am bob un o'r pynciau yr oedden nhw wedi rhoi 2 neu fwy iddyn nhw yn nhrefn pwysigrwydd wrth ateb y cwestiwn 'Pa mor bwysig yw hi bod y Comisiynydd yn gweithio ar y pethau canlynol i blant a phobl ifanc?' (Ffigur 16 uchod). Yn achos pob un o'r cwestiynau hyn, gofynnwyd i'r bobl ifanc ddewis pob opsiwn roedden nhw'n meddwl eu bod yn syniad da mewn cwestiwn amlddewis cychwynnol, cyn gofyn iddyn nhw ddewis pa rai o'r opsiynau hynny roedden nhw'n meddwl oedd y syniad gorau.






# 11-18 oed

Roedd y cwestiwn cyntaf yn gofyn 'Pa rai o'r rhain sy'n syniad da ar gyfer helpu pobl ifanc sydd â phroblemau iechyd emosiynol neu feddyliol?' (Ffigur 18). Mae'r ymatebion yn dangos mai sicrhau lle yn yr ysgol lle gall disgyblion fynd unrhyw bryd bydd angen cefnogaeth arnyn nhw oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd. Dewiswyd hynny gan 65 y cant o'r ymatebwyr, ac roedd 36 y cant yn meddwl mai dyma'r syniad gorau. Hwn hefyd oedd yr ateb mwyaf cyffredin ymhlith plant 7-11 oed.


*Ffigur 18: Lefel y gefnogaeth i syniadau ar gyfer helpu plant sydd â phroblemau emosiynol neu iechyd meddwl (11-18 oed)*



# 11-18 oed

Bwlio oedd testun y cwestiwn nesaf (Ffigur 19). Yr opsiwn mwyaf poblogaidd oedd sicrhau bod athrawon yn cymryd bwlio o ddifri. O'r bobl ifanc 11-18 oed a fu'n cymryd rhan, dewisodd bron tri chwarter (74 y cant) yr opsiwn hwn ar gyfer y cwestiwn amlddewis, a dewisodd hanner ohonyn nhw hynny fel y syniad gorau.

*Ffigur 19: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i fynd i'r afael â bwlio (11-18 oed)*







Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissoner for Wales
Beth Nawr, 2019

# 11-18 oed

Roedd y cwestiwn nesaf yn holi ymhellach trwy ofyn beth roedd pobl ifanc yn meddwl ddylai gael ei wneud i fynd i'r afael â bwlio ar-lein (Ffigur 20). Ni chafwyd llawer o amrywiaeth yn ymatebion pobl ifanc i'r cwestiwn hwn. Dewisodd tua 60 y cant bob un o'r tri opsiwn a ddarparwyd, a mwy o wybodaeth i rieni oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd, o ryw fymryn. O ran yr ymateb i ba opsiwn oedd y 'syniad gorau', roedd y farn wedi'i rhannu bron yn gyfartal rhwng y 3 syniad a awgrymwyd, gyda 2% yn unig yn dewis yr opsiwn 'arall'.


*Ffigur 20: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i fynd i'r afael â bwlio ar-lein (11-18 oed)*



# 11-18 oed

Y dewisiadau mwyaf poblogaidd ar gyfer y cwestiwn nesaf ynghylch lleihau trais a chamdriniaeth yn y cartref oedd y rhai ynghylch sicrhau cefnogaeth (Ffigur 21). Y ddau opsiwn mwyaf cyffredin yn y cwestiwn amlddewis, a ddewiswyd gan 65 y cant o'r ymatebwyr, oedd 'sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo y gallan nhw siarad ag oedolion gallan nhw eu trystio am y peth' a 'sicrhau bod cael help yn haws'. Fodd bynnag, 'Rhoi mwy o gymorth i deuluoedd i'w helpu i ddelio gyda phroblemau' oedd y 'syniad gorau' mwyaf cyffredin, a ddewiswyd gan 28 y cant o bobl ifanc 11-18 oed.

*Ffigur 21: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i leihau trais a chamdriniaeth yn y cartref (11-18 oed)*









# 11-18 oed

Roedd y cwestiwn nesaf hefyd yn canolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant pobl ifanc, ac yn edrych ar beth allai gael ei wneud i'w cadw nhw'n ddiogel ac yn hapus ar-lein (Ffigur 22). Yr opsiwn mwyaf poblogaidd, a ddewiswyd gan 60 y cant o'r bobl ifanc yn yr astudiaeth, oedd 'sicrhau bod pobl ifanc yn gwybod pwy i'w trystio ar-lein'. Dewiswyd hynny hefyd fel y 'syniad gorau' (31 y cant), gyda 'blocio gwefannau y dylai pobl ifanc ddim eu gweld' yn dilyn (26 y cant).


*Ffigur 22: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i gadw plant yn ddiogel ac yn hapus ar-lein (11-18 oed)*



# 11-18 oed

Holwyd y bobl ifanc yn yr arolwg 11-18 pa grwpiau o bobl ifanc roedden nhw'n meddwl oedd yn cael eu trin yn annheg (Ffigur 23). Roedd bron tri chwarter (74 y cant) o'r bobl ifanc yn meddwl bod pobl ifanc sy'n hoyw, yn lesbiaidd neu'n ddeurywiol yn dioddef camwahaniaethu, gyda phobl ifanc anabl (67 y cant), pobl ifanc trawsrywedd (66 y cant) a phobl ifanc o deuluoedd sydd â llai o arian (62 y cant) yn dilyn. Nododd ychydig dros chwarter y bobl ifanc mai pobl ifanc sy'n hoyw, yn lesbiaidd ac yn ddeurywiol sy'n cael eu trin yn 'fwyaf annheg', yn yr un modd pobl ifanc anabl.

*Ffigur 23: Grwpiau o blant sy'n cael eu trin yn annheg (11-18 oed)*









# 11-18 oed

Yna gofynnwyd cwestiynau dilynol ynghylch beth roedd pobl ifanc yn meddwl allai gael ei wneud i sicrhau bod pob person ifanc yn cael eu trin yn deg mewn ysgolion (Ffigur 24). Yr opsiwn mwyaf poblogaidd ar gyfer y cwestiwn amlddewis (72 y cant) a'r cwestiwn syniad gorau (43 y cant), oedd sicrhau bod ysgolion yn addysgu pobl ifanc am barchu'r rhai sy'n wahanol iddyn nhw. Roedd ethos yr ysgol yn bwysig hefyd, gyda 63 y cant o'r cyfranogwyr yn dewis opsiwn sicrhau bod pawb yn teimlo croeso yn yr ysgol.

*Ffigur 24: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i sicrhau bod pob person ifanc yn cael eu trin yn deg mewn ysgolion (11-18 oed)*




# 11-18 oed

**Cyfleoedd i bobl ifanc roi eu barn**

Yn adran olaf yr arolwg, gofynnwyd cwestiynau i'r bobl ifanc ynghylch i ba raddau roedd cyfres o wahanol sefydliadau wedi gofyn eu barn (Ffigur 25). Dywedodd 60 y cant o'r bobl ifanc fod eu hysgol wedi gofyn eu barn. Roedd y cyfrannau oedd yn nodi bod sefydliadau eraill wedi ymgynghori â nhw yn tueddu i fod yn is, gyda chanrannau uchel o ymatebion 'ddim yn siŵr'. Fel yn achos yr arolwg 7-11, mae'n bosibl mai'r rheswm am hyn yw bod plant wedi cwblhau nifer o arolygon ar gyfer gwahanol sefydliadau yn y gorffennol, ac yn cael trafferth cofio'r union fanylion.

*Ffigur 25: Cyfran y plant a ddywedodd bod rhywrai wedi ymgynghori â nhw, yn ôl y math o ymgynghoriad (11-18 oed)*








# Fersiwn hygyrch

Roedd y fersiwn hygyrch o'r arolwg yn defnyddio symbolau Widgit i helpu rhai plant, gan gynnwys rhai ag anawsterau dysgu/anableddau i ddeall y cwestiynau. Hefyd datblygwyd cynllun gwers ar gyfer athrawon i'w galluogi i ddatblygu capasiti o amgylch y materion a godwyd yn yr arolwg cyn ei gwblhau. Roedd y cwestiynau yn yr arolwg hwn yn gyffredinol debyg i'r rhai yn y fersiwn i blant 7-11 oed.

Dewisodd 34 o blant rhwng 10 a 18 oed gwblhau'r arolwg hygyrch. O'r rhain,

- Roedd 27 y cant yn fenywod a 73% yn wrywod
- Roedd 97 y cant yn mynd i'r ysgol, a 3 y cant yn cael eu haddysgu gartref.

Mae eu barn yn bwysig, ond gan fod y sampl yn fach, mae'n arbennig o bwysig bod yn ofalus wrth gyffredinoli ynghylch profiadau plant a ddewisodd gwblhau'r arolwg hwn, y gallai fod ganddynt anawsterau dysgu/anableddau.

**Dysgu**

Mewn cwestiwn penagored, gofynnwyd i'r plant a oedd unrhyw beth arall yr hoffen nhw ei ddysgu yn yr ysgol. Dim ond 30 ymateb gafwyd i'r cwestiwn hwn, ac roedd yr atebion yn amrywio. Dim ond yr opsiynau hynny lle dewiswyd ateb gan fwy nag un ymatebydd sydd i'w gweld isod


- Roedd tri phlentyn eisiau dysgu mwy o fathemateg
- Roedd tri eisiau dysgu mwy am bêl-droed
- Roedd tri eisiau rhagor o wyddoniaeth
- Roedd dau eisiau rhagor o hanes
- Roedd dau eisiau rhagor o ddaearyddiaeth

# Fersiwn hygyrch

**Pryderon Plant**

Er mai prif bryderon y plant a phobl ifanc 7-11 oed a'r bobl ifanc 11-18 oed yn yr arolwg prif ffrwd oedd profion a gwaith ysgol, problemau teuluol a bwlio oedd y pryderon mwyaf cyffredin ymhlith y plant a atebodd yr arolwg hwn (Ffigur 26).

*Ffigur 26: Cyfran y plant sy'n pryderu am faterion yn eu bywydau (Hygyrch)*









# Fersiwn hygyrch

**Ymwneud rhieni / gofalwyr â bywydau plant**

Holwyd plant hefyd ynghylch faint o amser roedd rhieni/gofalwyr yn ei dreulio ar weithgareddau penodol gyda nhw (Ffigur 27). Roedd y canlyniadau'n debyg i rai'r plant a phobl ifanc wnaeth gwblhau fersiynau eraill o'r arolygon. Y gweithgaredd mwyaf cyffredin gan rieni/gofalwr oedd holi am yr ysgol, a'r lleiaf cyffredin oedd defnyddio ffonau symudol o gwmpas y plant.

*Ffigur 27: Faint o amser mae rhiant neu ofalwr yn ei dreulio ar weithgareddau, yn ôl y plant (Hygyrch)*




# Fersiwn hygyrch

**Defnydd plant o dechnoleg**

Yna gofynnwyd cwestiynau i'r plant ynghylch eu defnydd eu hunain o ddyfeisiau technolegol (Ffigur 28). Roedd mwyafrif llethol y plant (90 y cant) yn treulio dros awr yn gwylio'r teledu. Roedd y defnydd o ffonau symudol yn is ymhlith y grŵp yma nag ymhlith y bobl ifanc wnaeth gwblhau'r arolwg 11-18 oed, er ei fod yn uwch nag ymhlith rheiny wnaeth gwblhau'r fersiwn 7-11 oed o'r adolygiad. Serch hynny, roedd cyfran y rhai oedd yn defnyddio consolau gêmau am fwy na phum awr, 42 y cant, yn uchel o gymharu â'r ddau grŵp arall.

*Ffigur 28: Faint o amser, mewn oriau, dreuliwyd yn defnyddio dyfeisiau yn ystod y 24 awr diwethaf (Hygyrch)*







Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissoner for Wales
Beth Nawr, 2019

# Fersiwn hygyrch

Holwyd y plant oedd yn cwblhau'r arolwg hefyd am ddefnyd eu rhieni/gofalwyr o ffonau symudol (Ffigur 29). Roedd eu hymatebion yn dangos bod un o bob pump ohonynt yn cael trafferth sicrhau sylw gan eu rhieni pan fydden nhw'n defnyddio ffôn. Mae hyn yn cymharu'n fras â'r grwpiau eraill.

*Ffigur 29: Pa mor hawdd yw cael sylw gan rieni/gofalwyr pan fyddan nhw'n defnyddio ffôn symudol (Hygyrch)*




# Fersiwn hygyrch

**Barn ynghylch blaenoriaethau'r Comisiynydd**

Rhoddwyd cwestiwn amlddewis i'r plant oedd yn holi eu barn ynghylch beth dylai'r Comisiynydd ei wneud i wella bywydau plant (Ffigur 30). Yr opsiwn mwyaf poblogaidd ymhlith y plant fu'n cwblhau'r arolwg oedd cadw plant yn ddiogel, gyda stopio bwlio yn dilyn.

*Ffigur 30: Barn ynghylch beth ddylai fod yn flaenoriaethau i'r Comisiynydd er mwyn gwella bywydau plant (Hygyrch)*







Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissoner for Wales

Beth Nawr, 2019

# Fersiwn hygyrch

Sicrhau mwy o help i blant y tu allan i'r ysgol oedd y brif flaenoriaeth i helpu plant sy'n drist neu'n pryderu llawer (Ffigur 31).


*Ffigur 31: Syniadau gorau ar gyfer helpu plant gyda phroblemau iechyd meddwl neu emosiynol (Hygyrch)*



# Fersiwn hygyrch

Yna holwyd barn y plant ynghylch beth ddylai gael ei wneud i atal bwlio (Ffigur 32). Rhoi help i blant sy'n bwlio newid eu hymddygiad oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd, a ddewiswyd gan bron hanner y cyfranogwyr.

*Ffigur 32: Syniadau gorau ar gyfer taclo bwlio (Hygyrch)*









# Fersiwn hygyrch

**Cyfleoedd i blant roi eu barn**

Roedd y cwestiwn olaf yn yr arolwg hwn yn gofyn i'r plant a oedd eu rhieni/gofalwyr, y Comisiynydd Plant a'u hathrawon erioed wedi gofyn eu barn (Ffigur 33). Roedd yn drawiadol na ddywedodd yr un ymatebydd bod athro heb ofyn eu barn. Unwaith eto, dywedodd llai o blant fod y Comisiynydd Plant wedi gofyn eu barn, ond fel yn achos y grwpiau eraill, mae'n bosibl mai'r rheswm am hynny oedd bod rhai wedi ticio ateb cadarnhaol dim ond os oedden nhw wedi cael gofyn eu barn yn bersonol, wyneb yn wyneb.

*Ffigur 33: Cyfran y plant a ddywedodd bod rhywrai wedi ymgynghori â nhw, yn ôl y math o ymgynghoriad (Hygyrch)*



# Rhieni a Gofalwyr

Cafwyd 647 o ymatebwyr i'r arolwg rhieni/gofalwyr. O'r rheiny:

- Roedd gan 56 y cant blant 10 oed neu iau.
- Roedd 92 y cant o'r rhai a gwblhaodd yr arolwg yn fenywod.

**Dysgu**

Gofynnwyd cwestiwn penagored i rieni/gofalwyr ynghylch a oedd unrhyw beth arall, yn eu barn nhw, y dylai pobl ifanc ddysgu amdano yn yr ysgol. Y categori mwyaf poblogaidd o bell ffordd oedd sgiliau bywyd, gan adlewyrchu prif flaenoriaeth y bobl ifanc 11-18 oed a atebodd yr arolwg. Y sgil amlycaf yn atebion y rhieni/gofalwyr oedd sgiliau ariannol, fel cyllidebu, rheoli arian, morgeisi a threth. Yr ail gategori mwyaf poblogaidd oedd Iechyd a Llesiant. Roedd ffocws ar iechyd meddwl oddi mewn i hynny, er enghraifft ymdopi â straen, rheoli emosiynau. Galwodd nifer o rieni/ofalwyr am ffocws ar addysg ynghylch perthnasoedd iach, gan gynnwys perthnasoedd gyda chyfoedion, bwlio a pherthnasoedd rhamantus a rhywiol. Roedd rhieni/gofalwyr hefyd yn canolbwyntio ar ddatblygu nodweddion personol fel caredigrwydd, hyder a goddefgarwch yn eu hatebion.

**Pryderon yng nghyswllt plant**

Gofynnwyd cwestiwn amlddewis i rieni/gofalwyr ynghylch faint roedden nhw'n pryderu am wahanol agweddau ar fywydau plant, ar raddfa o 1-9 lle roedd 1= ddim o gwbl a 9 = llawer (Ffigur 34). Darparwyd opsiwn 'amherthnasol' ar gyfer y rhai yr oedd eu plant yn rhy ifanc i rai o'r materion fod yn berthnasol i'w bywydau, er enghraifft cyfryngau cymdeithasol.


Y prif destun pryder oedd iechyd meddyliol ac emosiynol eu plentyn. Dewisodd hanner y rhieni/gofalwyr naill ai 8 neu 9 ar gyfer y mater hwn. Y lefel uchaf o bryder wedi hynny oedd bwlio. Roedd effaith cyfryngau cymdeithasol a gwaith ysgol / arholiadau hefyd yn destun pryder mawr, gyda 37 y cant yn dewis 8 neu 9 ar gyfer hynny.





Rhieni a Gofalwyr


*Ffigur 34: Lefel y pryder ynghylch materion ym mywydau plant (Rhieni/Gofalwyr)*



# Rhieni a Gofalwyr

Roedd canlyniadau cwestiwn dilynol oedd yn gofyn i rieni/gofalwyr ddewis pa fater unigol roedden nhw'n pryderu fwyaf yn ei gylch yn cyfateb yn fras i'r rhai yn y cwestiwn cyntaf (Ffigur 35). Iechyd meddyliol ac emosiynol oedd y prif bryderon o hyd, a'r mater yn y trydydd safle oedd rhagolygon eu plant ar ôl gadael yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol.

*Ffigur 35: Materion y mae rhieni/gofalwyr yn pryderu fwyaf amdanynt yng nghyswllt plant (Rhieni/Gofalwyr)*







Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissoner for Wales
Beth Nawr, 2019

# Rhieni a Gofalwyr

Rhoddwyd cwestiwn hefyd i rieni/gofalwyr ar yr un raddfa 1-9 oedd yn holi i ba raddau roedden nhw'n credu bod eu plant yn pryderu am faterion yn y byd ehangach, fel brawychiaeth, tlodi a digartrefedd (Ffigur 36). Mae cyfran isel y rhieni/gofalwyr a ddewisodd 8 neu 9 mewn ymateb i unrhyw un o'r materion hyn yn awgrymu, ar y cyfan, nad yw rhieni/gofalwyr yn credu bod plant yn pryderu'n amlwg am y mathau hyn o bethau. Mewn gwirionedd, roedd plant a ymatebodd i'r cwestiwn hwn yn yr arolwg i bobl ifanc 11-18 oed yn tueddu i bryderu mwy am y materion hyn nag y mae ymatebion y rhieni/gofalwyr i'r arolwg yn awgrymu. Er enghraifft, dewisodd 20 y cant o'r bobl ifanc 11-18 oed 8-9 ar gyfer brawychiaeth, ond dim ond 7 y cant o'r rhieni/gofalwyr wnaeth hynny.


*Ffigur 36: I ba raddau mae rhieni/gofalwyr yn meddwl bod plant yn pryderu am faterion penodol yn y byd ehangach (Rhieni/Gofalwyr)*



# Rhieni a Gofalwyr

Y mater roedd rhieni/gofalwyr yn meddwl bod plant yn pryderu fwyaf amdano yn y byd ehangach oedd yr amgylchedd. Dewisodd 36 y cant o rieni/ofalwyr rhwng 6 a 9 wrth ymateb i'r cwestiwn hwn, ac yn y cwestiwn dilynol ynghylch pa fater roedden nhw'n credu eu bod yn pryderu fwyaf yn ei gylch (Ffigur 37), yr amgylchedd ddewiswyd gan y gyfran uchaf o rieni/gofalwyr.

*Figur 37: Materion roedd rhieni/gofalwyr yn teimlo bod plant yn pryderu fwyaf amdanynt yn y byd ehangach (Rhieni/Gofalwyr)*









# Rhieni a Gofalwyr

**Ymwneud rhieni/gofalwyr â bywydau plant**

Yn yr arolwg rhieni/gofalwyr, gofynnwyd i'r ymatebwyr i ba raddau roedden nhw'n ymgysylltu â gweithgareddau penodol gyda phlant ar raddfa o 1-9, lle roedd 1= ddim o gwbl a 9 = llawer (Ffigur 38). Unwaith eto roedd opsiwn 'amherthnasol' er mwyn i rieni/gofalwyr nodi os nad oedd cwestiynau'n berthnasol iddyn nhw, er enghraifft y rhai oedd yn methu gwneud sylw ynghylch ymgysylltu ag ysgol eu plant gan fod eu plant heb gyrraedd oed ysgol eto.

Dewisodd mwyafrif llethol y rhieni/gofalwyr naill ai 8 neu 9 mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch holi am yr ysgol, gan ddangos eu bod yn holi eu plant yn rheolaidd ynghylch eu bywyd yn yr ysgol. Dewisodd bron tri chwarter o'r rhieni hefyd 8 neu 9 mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch a oedden nhw'n bwyta'n rheolaidd gyda'u plant. Dewisodd ychydig o dan chwarter y rhieni/gofalwyr 8 neu 9 mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch faint roedden nhw'n defnyddio eu ffôn symudol o gwmpas eu plant.

*Ffigur 38: Lefel ymgysylltiad rhieni/gofalwyr â gweithgareddau (Rhieni)*




# Rhieni a Gofalwyr

**Defnydd Rhieni/Gofalwyr o dechnoleg**

Roedd cwestiwn pellach yn gofyn i rieni/gofalwyr faint o amser roedden nhw wedi'i dreulio'n defnyddio dyfeisiau technolegol y tu allan i'r gwaith yn ystod y 24 awr diwethaf (Ffigur 39). Nid oedd y mwyafrif llethol wedi defnyddio consol gêmau o gwbl, ac roedd yr amser a dreuliwyd ar gyfrifiadur a thabled yn fach iawn. Y ddyfais a ddefnyddiwyd yn fwyaf cyffredin oedd y ffôn symudol. Dywedodd 9 y cant eu bod wedi'i ddefnyddio am fwy na phedair awr yn ystod y 24 awr diwethaf.

*Ffigur 39: Faint o amser a dreuliwyd yn defnyddio dyfeisiau yn ystod y 24 awr diwethaf, y tu allan i'r gwaith (Rhieni)*







Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Beth Nawr, 2019

# Rhieni a Gofalwyr

Yna gofynnwyd i'r rhieni/gofalwyr a oedd eu plant erioed wedi gofyn iddyn nhw stopio defnyddio'u ffôn symudol (Ffigur 40). Dywedodd mwyafrif (68 y cant) o'r cyfranogwyr eu bod nhw heb wneud hynny, ond dywedodd chwarter eu bod.

*Ffigur 40: Cyfran y rhieni/gofalwyr yn ôl a yw eu plant erioed wedi gofyn iddyn nhw stopio defnyddio ffonau symudol (Rhieni/Gofalwyr)*




Roedd cwestiwn dilynol yn holi pam roedd eu plentyn wedi gofyn iddyn nhw stopio defnyddio'u ffôn symudol. Roedd yr ymatebion yn cyfateb i rai'r plant 7-11 oed. Dywedodd mwyafrif y rhieni/gofalwyr fod eu mab neu ferch wedi gofyn iddyn nhw oherwydd eu bod nhw eisiau cael mwy o sylw, er enghraifft siarad â nhw neu wneud gweithgaredd gyda nhw. Er enghraifft, ysgrifennodd un rhiant:

*"Roedd pethau'n mynd â'm sylw a doeddwn i ddim yn gwrando arnyn nhw achos mod i'n gwylio ffilm ar fy ffôn." (Rhiant/gofalwr pobl ifanc 12-13 oed)*

Dywedodd nifer o rieni/gofalwyr eu bod yn cael trafferth cyfyngu ar eu defnydd o ffôn symudol y tu allan i'r gweithle oherwydd ymrwymiadau gwaith a bywyd parhaus:

*"Gwaetha'r modd, oherwydd mod i'n gweithio drwy'r dydd, mae gen i lu o e-byst, negeseuon a biliau i'w talu ar-lein. Maen nhw wedi gofyn i mi stopio i roi sylw/help iddyn nhw." (Rhiant/gofalwr plant 3-10 oed)*


*"roedd e eisiau siarad, ac roeddwn i'n anfon e-byst gwaith o'm ffôn symudol. Fe orffennais i'r un roeddwn i arno a stopio. Fel cymdeithas (yn arbennig os ydych chi'n hunangyflogedig neu'n uchel yn y byd proffesiynol) mae'n gallu bod yn anodd jyglo gwaith a bywyd cartref, ond dylai pawb ohonon ni fod yn fwy ymwybodol bod angen i ni adael ein gwaith a'n technoleg yn llonydd gyda'r hwyr a mynd nôl at amser sylfaenol i'r teulu gyda theithiau cerdded natur yn yr awyr agored, gêmau bwrdd gyda'r hwyr ac ati." (Rhiant/gofalwr plentyn 9 oed)*

# Rhieni a Gofalwyr

**Barn ynghylch blaenoriaethau'r Comisiynydd**

Rhoddwyd cwestiwn i rieni/gofalwyr oedd yn holi pa mor bwysig oedd hi, yn eu barn nhw, bod y Comisiynydd yn gweithio ar nifer o faterion i blant a phobl ifanc (Ffigur 41). Mae'r rhain yn adlewyrchu'r un materion yr holwyd y plant yn eu cylch yn eu harolygon nhw. Dewiswyd sicrhau bod plant yn cael y gefnogaeth gywir ar gyfer problemau iechyd meddwl neu emosiynol amlaf, gydag 85 y cant yn dewis naill ai 8 neu 9 i'r cwestiwn hwn, a'r opsiwn hwn hefyd oedd y mwyaf poblogaidd yn y cwestiwn dilynol ynghylch pa fater yw'r pwysicaf (Ffigur 42). Nodwyd amddiffyniad rhag trais a chamdriniaeth a sicrhau bod pobl ifanc yn cael cyfle cyfartal mewn bywyd hefyd fel materion allweddol yn y cwestiynau hyn.

*Ffigur 41: Pwysigrwydd materion posibl i'r Comisiynydd eu blaenoriaethu (Rhieni/Gofalwyr)*









# Rhieni a Gofalwyr

*Ffigur 42: Y flaenoriaeth bwysicaf i'r Comisiynydd (Rhieni/Gofalwyr)*




# Rhieni a Gofalwyr

Rhoddwyd cwestiynau amlddewis i rieni/gofalwyr ynghylch pob mater, a gofynnwyd iddyn nhw ddewis pob opsiwn roedden nhw'n meddwl eu bod yn ffordd dda o ymdrin â'r mater. O'r rhai a ddewiswyd, gofynnwyd wedyn iddyn nhw pa opsiwn oedd y syniad gorau yn eu barn nhw.

Roedd y cyntaf o'r cwestiynau hyn yn canolbwyntio ar iechyd meddwl a phroblemau emosiynol plant (Ffigur 43). Y ddau syniad ar y brig a ddewiswyd yn syniadau da gan y rhieni/gofalwyr oedd sicrhau bod plant yn dysgu am iechyd meddwl yn yr ysgol a bod ganddyn nhw rywle yn yr ysgol y gallen nhw fynd iddo unrhyw bryd y byddai angen cefnogaeth arnyn nhw. Roedd teimlad hefyd mai dyma oedd y ddau syniad gorau, sy'n dangos bod yr ysgol yn cael ei gweld fel rhywle sydd â rôl allweddol wrth gynnal iechyd meddwl da ymhlith pobl ifanc, er bod y trydydd opsiwn yn cynnwys gwella gwasanaethau iechyd meddwl y tu allan i'r ysgol.

*Ffigur 43: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i helpu plant sydd â phroblemau iechyd meddwl neu emosiynol (Rhieni)*









# Rhieni a Gofalwyr

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch beth ddylai gael ei wneud i daclo bwlio (Ffigur 44), y syniad a ddewiswyd gan y gyfran uchaf o rieni/gofalwyr (dros ddau draean (67 y cant) oedd bod rhieni'n meddwl bod angen sicrhau bod athrawon yn cymryd bwlio o ddifri. Dewiswyd hynny hefyd fel syniad gorau, gyda 41 yn dewis yr opsiwn hwnnw. Roedd ffocws hefyd ar helpu'r rhai sy'n bwlio i newid eu hymddygiad, a dewisodd dros hanner (55 y cant) yr opsiwn yma ar gyfer y cwestiwn amlddewis.


*Ffigur 44: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i daclo bwlio (Rhieni/Gofalwyr)*



# Rhieni a Gofalwyr

Gwelai rhieni/gofalwyr rôl ganolog i athrawon wrth atal bwlio ar-lein, gyda thri chwarter yn dangos eu bod yn meddwl y dylai fod mwy o wersi ar barchu pobl eraill ar-lein yn yr ysgol (Ffigur 45).

*Ffigur 45: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i daclo bwlio ar-lein (Rhieni/Gofalwyr)*









# Rhieni a Gofalwyr

Cafwyd ymatebion tebyg i gwestiwn ynghylch beth ddylai gael ei wneud i gadw plant yn ddiogel ac yn hapus ar-lein – dewisodd y gyfran uchaf o rieni/ofalwyr (80 y cant) yr opsiwn am addysgu plant i barchu ei gilydd ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol, a daeth hyn i'r amlwg hefyd fel syniad gorau yn achos y grŵp hwn. Roedd hyn yn llawer uwch na'r 59 y cant a ddewisodd yr opsiwn am wybod pwy i'w trystio ar-lein. Mae hyn yn awgrymu eu bod yn gweld rhyngweithio â chyfoedion fel mater pwysicach nag ymwneud â dieithriaid.


*Ffigur 46: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i gadw pobl ifanc yn ddiogel ac yn hapus ar-lein (Rhieni/Gofalwyr)*



# Rhieni a Gofalwyr

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch beth ddylai gael ei wneud i leihau effaith trais a mathau eraill o gamdriniaeth (Ffigur 47), roedd bron tri chwarter (73 y cant) o'r rhieni/gofalwyr yn meddwl ei fod yn syniad da sicrhau bod plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod nhw'n gallu siarad ag oedolion maen nhw'n eu trystio am gamdriniaeth. Hefyd barnwyd mai dyma'r syniad gorau gan 31 y cant o rieni/gofalwyr.

*Ffigur 47: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i leihau effaith trais a chamdriniaeth yn y cartref (Rhieni/Gofalwyr)*







Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissoner for Wales
Beth Nawr, 2019

# Rhieni a Gofalwyr

Holwyd Rhieni/Gofalwyr hefyd ynghylch pa grwpiau o bobl ifanc roedden nhw'n meddwl eu bod yn cael eu trin yn annheg (Ffigur 48). Y grŵp a ddewiswyd gan y gyfran uchaf o rieni/gofalwyr oedd pobl ifanc o deuluoedd â llai o arian (38 y cant), gyda phobl ifanc anabl yn dilyn. Roedd hyn yn gyferbyniad â phrif ddewis y bobl ifanc 11-18 oed, a ddewisodd bobl ifanc hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol.


*Ffigur 48: Grwpiau o blant sy'n cael eu trin yn annheg (Rhieni/Gofalwyr)*



# Rhieni a Gofalwyr

Mewn ymateb i gwestiwn ynghylch beth allai gael ei wneud i sicrhau bod plant o bob cefndir yn cael eu trin yn deg (Ffigur 49), eto mae ymatebion rhieni/ gofalwyr yn dangos eu bod yn gosod gwerth ar ddull addysgu. Roedd 86 y cant o rieni/gofalwyr yn meddwl ei fod yn bwysig addysgu plant ynghylch parchu pobl eraill sy'n wahanol, ac roedd 83 y cant yn meddwl ei fod yn bwysig sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo croeso yn yr ysgol.

*Ffigur 49: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i sicrhau bod pob person ifanc yn cael eu trin yn deg mewn ysgolion (Rhieni)*









# Rhieni a Gofalwyr

**Cyfleoedd i blant roi eu barn**

Yn gynwysiedig hefyd oedd cwestiwn ynhgylch i ba raddau roedd rhieni / gofalwyr yn credu fod rhai sefydliadau yn galluogi plant rannu eu barn (Ffigur 50). Y ddau sefydliad a ddewiswyd gan fwyafrif y cyfranogwyr oedd ysgolion (59 y cant) a'r Comisiynydd Plant (56 y cant).

*Figur 50: Cyfran y rhieni / gofalwyr a soniodd am rai sefydliadau oedd yn gofyn am farn plant (Rhieni / Gofalwyr)*



# Gweithwyr Proffesiynol

Cwblhaodd 585 o weithwyr proffesiynol y fersiwn hon o'r arolwg. Gofynnwyd iddyn nhw ym mha sector roedden nhw'n gweithio, a gallen nhw ddewis mwy nag un sector os oedd eu gwaith yn gorgyffwrdd.

- Roedd 70 y cant yn gweithio yn y sector addysg
- 9 y cant yn y sector gwirfoddol
- 7 y cant mewn gwaith cymdeithasol
- 7 y cant mewn iechyd (heb gynnwys iechyd meddwl)
- 4 y cant mewn iechyd meddwl
- 2 y cant mewn cyfiawnder ieuenctid
- 2 y cant yn y byd academaidd
- a dewisodd 9 y cant 'arall'

**Dysgu**

Roedd barn gweithwyr proffesiynol ynghylch beth dylai plant ddysgu mwy amdano yn yr ysgol yn gyffredinol debyg i farn rhieni/gofalwyr. Roedd sgiliau bywyd a iechyd a llesiant yn flaenoriaethau i'r ddau grŵp. Roedd dysgu sut i ymdopi â phroblemau iechyd meddwl ac emosiynol yn sgil allweddol a nodwyd gan weithwyr proffesiynol oedd â diddordeb mewn llesiant. Amlygwyd rheolaeth ar arian gan y rhai oedd yn canolbwyntio ar sgiliau bywyd. Teimlai nifer o weithwyr proffesiynol hefyd y dylai fod mwy o addysg rhyw ochr yn ochr â gwersi ar berthnasoedd iach. Roedd llawer hefyd am weld llawer mwy o drafodaeth ynghylch cydsyniad fel rhan o addysg rhyw.

**Pryderon i blant**


Gofynnwyd cwestiynau i weithwyr proffesiynol yn yr un fformat â rhieni/gofalwyr ynghylch i ba raddau roedden nhw'n pryderu am wahanol agweddau ar fywydau plant (Ffigur 51). Iechyd meddyliol ac emosiynol plant oedd y pryder pennaf i weithwyr proffesiynol, yn ogystal â rhieni/gofalwyr. Mewn cwestiwn oedd yn holi ynghylch pryder ar raddfa o 1-9 lle roedd 1 = ddim o gwbl a 9 = pryderus iawn, dewisodd 64 y cant 8 neu 9 ar gyfer iechyd meddyliol ac emosiynol.





# Gweithwyr Proffesiynol


*Ffigur 51: Lefel y pryder ynghylch materion ym mywydau plant (Gweithwyr Proffesiynol)*



# Gweithwyr Proffesiynol

Yn y cwestiwn canlynol, gofynnwyd i weithwyr proffesiynol ddewis beth roedden nhw'n pryderu fwyaf amdano (Ffigur 52). Unwaith eto, iechyd meddyliol ac emosiynol plant oedd prif bryder gweithwyr proffesiynol, a dewisodd 37 y cant hynny.

*Ffigur 52: Prif bryderon i blant (Gweithwyr Proffesiynol)*









# Gweithwyr Proffesiynol


Holwyd gweithwyr proffesiynol hefyd i ba raddau roedden nhw'n credu fod plant yn pryderu ynghylch y materion canlynol ar yr un raddfa o 1 - 9 (Ffigur 53). Tlodi oedd y mater roedd cyfran fwyaf y gweithwyr proffesiynol yn yr arolwg o'r farn bod plant yn pryderu fwyaf amdano. Dewisodd bron 20 y cant o'r cyfranogwyr 8 neu 9 yn achos y cwestiwn hwn, a dewisodd 42 y cant hyn fel y mater pwysicaf (Ffigur 54).

*Ffigur 53: I ba raddau mae plant yn pryderu am faterion yn y byd ehangach (Gweithwyr Proffesiynol)*



# Gweithwyr Proffesiynol

*Ffigur 54: Materion mae plant yn pryderu fwyaf amdanyn nhw yn y byd ehangach (Gweithwyr Proffesiynol)*




Pan ofynnwyd mewn cwestiwn penagored beth arall roedden nhw'n meddwl bod y plant roedden nhw'n gweithio gyda nhw yn pryderu amdano, y prif fater a godwyd oedd perthnasoedd teuluol, gan gynnwys iechyd aelodau'r teulu, trais domestig a rhieni'n ymwahanu. Yr ail fater mwyaf cyffredin a godwyd gan weithwyr proffesiynol oedd cyfeillgarwch, er enghraifft teimlo eu bod yn cael eu cynnwys a chanfyddiad eu cyfoedion ohonynt. Nododd nifer o weithwyr proffesiynol hefyd bryderon plant ynghylch eu dyfodol, er enghraifft pa mor debygol oedden nhw o gael hyd i swydd dda.






# Gweithwyr Proffesiynol

**Barn ynghylch blaenoriaethau'r Comisiynydd**


Rhoddwyd rhestr o faterion i weithwyr proffesiynol a gofyn iddyn nhw pa mor bwysig oedd hi bod y Comisiynydd yn gweithio ar y rhain, ar raddfa o 1-9, lle roedd 1= ddim yn bwysig o gwbl, a 9 = pwysig iawn (Ffigur 55). Rhoddwyd cwestiwn dilynol iddyn nhw, oedd yn gofyn iddyn nhw ddewis yr un mater oedd yn flaenoriaeth bwysicaf i'r Comisiynydd yn eu barn nhw (Ffigur 56). Yn y ddau gwestiwn, sicrhau bod plant yn derbyn y math cywir o help ar gyfer problemau emosiynol a iechyd meddwl, amddiffyniad rhag trais a chamdriniaeth a sicrhau bod pob person ifanc yn cael cyfle cyfartal oedd y materion pwysicaf. Roedd 89 y cant o'r farn y dylai'r Comisiynydd weithio ar iechyd meddwl, ac roedd bron hanner y sampl (46 y cant) yn meddwl mai dyma'r mater pwysicaf.

*Ffigur 55: Pwysigrwydd materion posibl i'r Comisiynydd eu blaenoriaethu (Gweithwyr Proffesiynol)*



# Gweithwyr Proffesiynol

*Ffigur 56: Y blaenoriaethau pwysicaf i'r Comisiynydd (Gweithwyr Proffesiynol)*









# Gweithwyr Proffesiynol

Mewn cyfres o gwestiynau mwy manwl ynghylch y pynciau hyn, rhoddwyd cwestiwn amlddewis i'r gweithwyr proffesiynol oedd yn holi pa rai o'r opsiynau gyflwynwyd roedden nhw'n barnu eu bod yn ffordd dda o ymdrin â mater. Yna gofynnwyd iddyn nhw ddewis pa syniad oedd orau, yn eu barn nhw. Yn achos y cwestiwn ar sut mae taclo materion iechyd meddwl (Ffigur 57), yr opsiwn mwyaf poblogaidd ymhlith y gweithwyr proffesiynol oedd gwella gwasanaethau iechyd meddwl i bobl ifanc y tu allan i'r ysgol, a ddewiswyd gan dri chwarter o'r ymatebwyr.


*Ffigur 57: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i helpu plant gyda materion iechyd meddwl ac emosiynol (Gweithwyr Proffesiynol)*



# Gweithwyr Proffesiynol

Pan holwyd ynghylch y ffordd orau o ymdrin â bwlio (Ffigur 58), y dull oedd yn cael ei ffafrio gan fwyafrif y gweithwyr proffesiynol (54 y cant) oedd helpu'r rhai sy'n bwlio i newid eu hymddygiad tuag at eraill. Roedd y syniad o hyfforddi plant i gefnogi eraill sy'n cael eu bwlio hefyd yn boblogaidd ymhlith ychydig o dan hanner y cyfranogwyr proffesiynol (48 y cant).

*Ffigur 58: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i daclo bwlio (Gweithwyr Proffesiynol)*









# Gweithwyr Proffesiynol


Gofynnwyd dau gwestiwn i'r gweithwyr proffesiynol hefyd ynghylch diogelwch plant ar-lein, y cyntaf am fwlio ar-lein (Ffigur 59) a'r ail yn gwestiwn mwy cyffredinol ynghylch sut mae cadw plant yn ddiogel ac yn hapus ar-lein (Ffigur 60). Yn achos gweithwyr proffesiynol, darparu gwybodaeth i rieni ynghylch sut mae taclo bwlio ar-lein oedd yr opsiwn mwyaf poblogaidd o bell i'r cwestiwn bwlio, ar-lein, ac fe'i dewiswyd fel syniad da gan bron 4 o bob 5 o'r cyfranogwyr (79 y cant) ac fel y syniad gorau gan hanner y cyfranogwyr. Yn achos yr ail gwestiwn, yr opsiwn a ddewiswyd gan y nifer mwyaf o gyfranogwyr (74 y cant) oedd 'addysgu nhw am barchu ei gilydd ar-lein ac ar y cyfryngau cymdeithasol, er mai'r syniad gorau mwyaf poblogaidd oedd helpu rhieni i gymryd diddordeb ym mywyd ar-lein eu plant (34 y cant).

*Ffigur 59: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i daclo bwlio ar-lein (Gweithwyr Proffesiynol)*



# Gweithwyr Proffesiynol

*Ffigur 60: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i gadw plant yn ddiogel ac yn hapus ar-lein (Gweithwyr Proffesiynol)*







Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissoner for Wales
Beth Nawr, 2019

# Gweithwyr Proffesiynol

Roedd y cwestiwn nesaf yn holi ynghylch sut mae taclo trais a chamdriniaeth yn y cartref (Ffigur 61). Roedd sicrhau bod pobl ifanc yn teimlo eu bod nhw'n gallu siarad ag oedolion maen nhw'n eu trystio ynghylch camdriniaeth yn boblogaidd fel syniad da a ddewiswyd gan weithwyr proffesiynol (69 y cant), a dilynwyd hynny gan roi mwy o gefnogaeth i deuluoedd i'w helpu i ddelio gyda phroblemau (66 y cant).


*Ffigur 61: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i leihau effaith trais a chamdriniaeth ( Gweithwyr Proffesiynol)*



# Gweithwyr Proffesiynol

Yna holwyd y gweithwyr proffesiynol ynghylch pa grwpiau o blant roedden nhw'n meddwl eu bod yn cael eu trin yn annheg. Nodwyd pobl ifanc o deuluoedd â llai o arian fel y rhai oedd yn cael eu trin yn fwyaf annheg (25 y cant), gyda phobl ifanc mewn cartrefi maeth a chartrefi plant yn dilyn (13 y cant).

*Ffigur 62: Grwpiau o blant sy'n cael eu trin yn annheg (Gweithwyr Proffesiynol)*







Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissoner for Wales
Beth Nawr, 2019

# Gweithwyr Proffesiynol

Roedd ymatebion gweithwyr proffesiynol i'r cwestiwn ynghylch sut mae mynd i'r afael â mater tegwch (Ffigur 63) yn troi o gwmpas rôl addysg, fel yr oedd atebion y rhieni. Dewiswyd addysgu plant ynghylch parchu eraill sy'n wahanol iddyn nhw fel y syniad gorau gan fwyafrif y gweithwyr proffesiynol (57 y cant), a nodwyd hynny fel syniad da gan fwy na phedwar o bob pump (83 y cant).

*Ffigur 63: Lefel y gefnogaeth ar gyfer syniadau i sicrhau bod pob person ifanc yn cael eu trin yn deg mewn ysgolion (Gweithwyr Proffesiynol)*




# Gweithwyr Proffesiynol

**Cyfleoedd i blant roi eu barn**

Cafodd cwestiwn ei gynnwys hefyd ar i ba raddau roedd gweithwyr proffesiynol yn teimlo bod sefydliadau penodol yn galluogi plant i roi barn (Ffigur 64). Roedd yn dangos bod bron pedwar o bob pump gweithiwr proffesiynol yn adrodd eu bod yn credu bod y Comisiynydd Plant (79 y cant) ac ysgolion (77 y cant) wedi ymgynghori â phlant. Mae'n bosibl bod y canfyddiad ynghylch ysgolion yn adlewyrchu'r ffaith bod mwyafrif yr ymatebwyr i'r arolwg hwn yn gweithio ym myd addysg.

*Ffigur 64: Cyfran y gweithwyr proffesiynol oedd yn adrodd eu bod yn holi barn plant, fesul sefydliad (Gweithwyr Proffesiynol)*








# Gwahaniaeth rhwng is-grŵpiau o blant

Ceir dadansoddiad pellach yn y tabl isod. Tabl 4 ac ymhlith pobl ifanc 11-18 oed yn Tabl 5 isod. Lle ceir bwlch, nid oes perthynas glir sy'n ystadegol arwyddocaol.

**Nodiadau ar y dadansoddiadau**

- Roedd nifer y plant anabl yn y sampl 11-18 oed yn rhy fach i'w dadansoddi, felly dangosir y canlyniadau ar gyfer y plant anabl a atebodd yr arolygon 7-11 oed yn unig.

- Atebodd cyfran uchel iawn o'r plant 7-11 oed 'ddim yn gwybod' i'r cwestiwn am ethnigrwydd, sy'n awgrymu ei fod wedi achosi cryn dipyn o ddryswch i'r grŵp oed yma. O ganlyniad, rydyn ni wedi penderfynu peidio â dadansoddi'r data 7-11 oed yn ôl ethnigrwydd, oherwydd allwn ni ddim bod yn ddigon hyderus ynghylch dilysrwydd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn.

- Yn achos y bobl ifanc 11-18 oed rydyn ni wedi cynnal dadansoddiad yn ôl ethnigrwydd. Fodd bynnag, nid oedd modd dadansoddi yn ôl grwpiau ethnig unigol gan fod y niferoedd ym mhob categori yn rhy fach, felly cynhaliwyd dadansoddiad ar sail a oedd y cyfranogwyr yn wyn neu beidio. Cafodd y rhai a ddewisodd 'ddim yn gwybod' eu heithrio o'r dadansoddiad hwn.

- Cyfrifwyd statws amddifadedd materol disgyblion gan ddefnyddio graddfa Amddifadedd Materol, sy'n rhoi rhestr o eitemau i blant ac yn gofyn faint o'r rhain maen nhw neu eu teulu yn berchen arnynt neu'n cael cyfle i'w defnyddio. Po uchaf yw nifer yr eitemau 'coll', uchaf yw'r sgôr amddifadedd materol. Yn achos rhai eitemau ar y raddfa, roedd lefelau'r amddifadedd yr adroddwyd amdanynt yn arbennig o uchel yn ein sampl. Er enghraifft, dywedodd dros hanner y plant yn y grŵp 7-11 oed fod ganddyn nhw ddim ffôn clyfar, iPod, arian i'w wario nac arian i'w gynilo. Fodd bynnag, gan fod y raddfa'n holi ynghylch presenoldeb eitemau yn hytrach na'u fforddiadwyedd, mae'n bosib bod yr eitemau hyn ar goll oherwydd dewisiadau rhianta. O'r herwydd, fe wnaethon ni benderfynu eithrio'r eitemau hyn o'r dadansoddiad.

- Mae'r newidyn rhywedd yn cynnwys bechgyn a merched yn unig, gan na nododd digon o ddisgyblion eu bod yn drawsrywedd i'w cynnwys yn y dadansoddiadau.

Mae'n bwysig cofio, lle na chafwyd hyd i berthynas, nad yw hynny'n golygu nad oes perthynas rhwng y ffactorau hynny yn y boblogaeth. Dylid bod yn arbennig o ofalus wrth ddehongli'r data ar anabledd ac ethnigrwydd, gan fod y niferoedd yn y grwpiau hyn yn fach iawn o fewn y sampl, ac felly mae'n bosibl bod rhai perthnasoedd heb eu canfod.

**Canlyniadau**

Dengys y canlyniadau fod y canlynol yn wir ymhlith y rhai a ymatebodd i'r arolwg:

- Roedd merched yn tueddu i bryderu mwy na bechgyn, yn gyffredinol.

- Roedd bechgyn yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel ac yn hyderus am eu dyfodol.

# Gwahaniaeth rhwng is-grŵpiau o blant

- Roedd merched a'r rhai o aelwydydd materol ddifreintiedig yn fwy tebygol o deimlo'n unig ac yn bryderus ynghylch sut roedden nhw'n edrych.
- Ymhlith y grwpiau oed hŷn, plant o aelwydydd materol ddifreintiedig oedd y rhai mwyaf tebygol o bryderu am y pynciau y buon ni'n holi yn eu cylch yn yr arolwg.
- Ymhlith y plant 7-11 oed, plant oedd ddim yn wyn a phlant anabl oedd y rhai mwyaf tebygol o bryderu am fwlio.
- Roedd plant anabl yn fwy tebygol o bryderu am waith ysgol, arian a bod yn iach.

Ceir dadansoddiad pellach yn Tabl 4.





# Gwahaniaeth rhwng is-grŵpiau o blant

*Tabl 4: Gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn ôl rhywedd, amddifadedd materol ac anabledd (7-11 oed)*

| Newidyn | Rhywedd | Sgôr Amddifadedd Materol | Anabledd |
|---|---|---|---|
| **Pryder ynghylch bwlio** | Merched yn uwch | | Anabl yn uwch |
| **Pryder ynghylch problemau teulu** | Merched yn uwch | | |
| **Pryder ynghylch gwaith ysgol** | Merched yn uwch | | Anabl yn uwch |
| **Pryder ynghylch profion** | Merched yn uwch | | |
| **Pryder ynghylch arian** | | | Anabl yn uwch |
| **Pryder ynghylch bod yn iach** | Merched yn uwch | Llai difreintiedig yn uwch | Anabl yn uwch |
| **Amser a dreuliwyd yn defnyddio ffonau symudol** | | | |
| **Amser a dreuliwyd yn defnyddio tabledi** | Bechgyn yn uwch | | |
| **Amser a dreuliwyd yn defnyddio cyfrifiadur/gliniadur** | Bechgyn yn uwch | | |
| **Amser a dreuliwyd yn defnyddio consol gêmau** | Bechgyn yn uwch | | |

# Gwahaniaeth rhwng is-grŵpiau o blant

*Tabl 5: Gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn ôl rhywedd, amddifadedd materol ac ethnigrwydd (11-18 oed)*

| Newidyn | Rhywedd | Sgôr Amddifadedd Materol | Ethnigrwydd |
|---|---|---|---|
| **Pryder ynghylch problemau teulu** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Pryder ynghylch perthnasoedd** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Pryder ynghylch gwaith ysgol/ arholiadau** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Pryder ynghylch bwlio** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Pryder ynghylch sut maen nhw'n edrych** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Pryder ynghylch dadleuon gyda ffrindiau** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Pryder ynghylch arian** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Pryder ynghylch iechyd corfforol** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Pryder ynghylch iechyd meddwl/ emosiynol** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Pryder ynghylch bywyd ar ôl yr ysgol, y coleg neu'r brifysgol** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Pryder am yr amgylchedd** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Pryder am frawychiaeth** | | Difreintiedig yn uwch | |



Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissoner for Wales
Beth Nawr, 2019

# Gwahaniaeth rhwng is-grŵpiau o blant

*Tabl 5: Gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn ôl rhywedd, amddifadedd materol ac ethnigrwydd (11-18 oed)*

| Newidyn | Rhywedd | Sgôr Amddifadedd Materol | Ethnigrwydd |
|---|---|---|---|
| **Pryder ynghylch troseddu** | Merched yn uwch | | |
| **Pryder ynghylch rhyfel** | Merched yn uwch | | |
| **Pryder ynghylch Brexit** | Merched yn uwch | | |
| **Pryder ynghylch digartrefedd** | | Difreintiedig yn uwch | Rhai sydd ddim yn wyn yn uwch |
| **Pryder ynghylch tlodi** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Amser a dreuliwyd yn defnyddio ffonau symudol** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Amser a dreuliwyd yn defnyddio tabledi** | Merched yn uwch | Llai difreintiedig yn uwch | |
| **Amser a dreuliwyd yn defnyddio cyfrifiadur/gliniadur** | Merched yn uwch | | |
| **Amser a dreuliwyd yn defnyddio consol gêmau** | | | Rhai sydd ddim yn wyn yn uwch |
| **Teimlo'n ddiogel** | Bechgyn yn uwch | | |
| **Teimlo'n unig** | Bechgyn yn uwch | Llai difreintiedig yn uwch | |
| **Pryder ynghylch sut maen nhw'n edrych** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Hyderus am y dyfodol** | Merched yn uwch | Difreintiedig yn uwch | |
| **Confident about future** | Bechgyn yn uwch | Llai difreintiedig yn uwch | Gwyn yn uwch |